Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil gymdeithasol: 15/2026

Dyddiad cyhoeddi: 10/02/2026

# Adroddiad Tystiolaeth Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in Welsh.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-882-5

Adroddiad Tystiolaeth Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru

Awduron: Louisa Smith

Smith, L. (2026). Adroddiad Tystiolaeth Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru: Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 15/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/adolygiad-swyddogion-cymorth-cymunedol-yng-nghymru

Barn yr ymchwilwyr yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Ymchwil Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ymchwil.GwasanaethauChoeddus@llyw.cymru

## Tabl o'r cynnwys

Rhestr o dablau....3

Rhestr o Ffigurau....4

Rhestr termau....5

1. Cyflwyniad a chefndir....6

1.1. Nodau ac amcanion....6

2. Methodoleg....7

2.1. Adolygiad llenyddiaeth....7

2.2. Grwpiau ffocws....8

3. Canfyddiadau'r Adolygiad Llenyddiaeth....10

3.1. Cyflwyniad Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu....10

3.2. Esblygiad Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'r gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr....11

3.3. Gweithgareddau a rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu....14

3.4. Pwerau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu....15

3.5. Amrywiad....16

3.6. Cymorth cymunedol vs cymorth yr heddlu....17

3.7. Dyletswyddau eraill....19

3.8. Cyni a phwysau ar rolau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu....20

3.9. Tystiolaeth o ddyletswyddau eraill yng Nghymru....21

3.10. Cyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu....22

3.11. Ymgysylltu â'r gymuned, ymddiriedaeth y cyhoedd a chyfreithlondeb....23

3.12. Gwelededd, canfyddiadau o ddiogelwch a sicrwydd....26

3.13. Lleihau troseddu ac anhrefn....28

3.14. Recriwtio ac amrywiaeth....30

4. Grwpiau ffocws gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Swyddogion Plismona Cymdogaeth....33

4.1. Cyflwyniad a rhesymeg....33

4.2. Canfyddiadau....33

4.2.1. Cymhellion i ddod yn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu....33

4.2.2. Rôl a Chyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu....35

4.2.3. Ffactorau sy'n hwyluso ac un rhwystro gwaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu....40

5. Casgliadau....45

6. Adran gyfeirio ..... 49

7. Atodiad A - Canllaw Trafod Grwpiau Ffocws ..... 51

# Rhestr o dablau

Tabl 1 - Niferoedd SCCH yng Nghymru a Lloegr 2010-2024 ........ 13
Tabl 2 - Niferoedd Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr 2010-2024 ........ 14

## Rhestr o Ffigurau

Ffigur 1: Niferoedd SCCH yng Nghymru yn ôl ardal grym 2010-2024 .................................12
Ffigur *2* - Niferoedd Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru yn ôl ardal y llu 2010-2024 ........13

# Rhestr termau

**ACPO**

Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu

**ASB**

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**CSOs**

Swyddogion Cymorth Cymunedol

**HMIC**

Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi

**MPS**

Gwasanaeth Heddlu Metropolitan

**NP**

Plismona’r Gymdogaeth

**PC**

Cwnstabl yr Heddlu

**PCSOs**

Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

**PEEL**

Effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu

# 1. Cyflwyniad a chefndir

Yn dilyn argymhellion gan Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd, cysylltodd Is-adran Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru â thîm ymchwil y Gwasanaeth Cyhoeddus a Llywodraeth Leol o fewn is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad ysgafn o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru. Roedd yr adolygiad yn cynnwys dau gam, sef adolygiad o'r llenyddiaeth sydd ar gael yn ymwneud â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac yna dau weithdy bach gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Swyddogion Plismona'r Gymdogaeth.

## 1.1. Nodau ac amcanion

Er nad yw plismona yn bŵer datganoledig yng Nghymru, ers 2011 mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i gefnogi hyfforddi a recriwtio 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol ar draws y pedwar llu a Heddlu Trafnidiaeth Prydain, gyda chyllid wedi'i ddyrannu yn 2021 i gefnogi 100 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol. Nod yr adolygiad hwn oedd ystyried cyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru a'r graddau y gallant fodloni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i blismona'r gymdogaeth a nodau ehangach. Yn ogystal â chyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ceisiodd yr adolygiad hefyd ystyried tystiolaeth sy'n ymwneud â gweithgareddau a gwaith gwirioneddol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a sut y gall hynny effeithio ar eu cyfraniad.

O ystyried y cyfyngiadau disgwyliedig yn yr adolygiad llenyddiaeth o ran argaeledd tystiolaeth sy'n ymwneud yn benodol â Chymru a'r nifer cyfyngedig o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a swyddogion cymdogaeth y siaradwyd â nhw fel rhan o'r gweithdy, nid bwriad yr adolygiad hwn oedd darparu asesiad pendant o effaith cyllid Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, nid bwriad yr adolygiad hwn oedd gwerthuso rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu na barnu unrhyw arferion unigol, ac ni fyddai'n bosibl adolygu effaith newidiadau yn y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Yn hytrach, nod yr adolygiad yw darparu dealltwriaeth ehangach o'r mathau o waith y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ei wneud a'u cyfraniadau posibl i bobl a chymunedau yng Nghymru a'r rhwystrau a'r galluogwyr posibl i'r cyfraniadau hynny.

# 2. Methodoleg

Fel y nodwyd uchod, roedd yr adolygiad yn cynnwys dau gam, sef yn gyntaf, adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael yn ymwneud â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr ac yna dau grŵp ffocws gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Swyddogion Plismona’r Gymdogaeth. Mabwysiadwyd y dull hwn i gydnabod prinder disgwyliedig o dystiolaeth yn ymwneud â Chymru, lle byddai'r grwpiau ffocws yn caniatáu ar gyfer ystyried i ba raddau y gallai canfyddiadau’r adolygiad llenyddiaeth fod yn berthnasol i waith a phrofiadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy’n gweithio yng Nghymru.

## 2.1. Adolygiad llenyddiaeth

Cynhaliwyd yr adolygiad llenyddiaeth gyda chymorth Gwasanaethau Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru a fu’n cynnal chwiliad llenyddiaeth. Cynhaliwyd chwiliadau llenyddiaeth y llyfrgell rhwng 1 Mawrth i 22 Mai 2024.

Fel rhan o’r chwiliad, bu’r llyfrgell yn ystyried llenyddiaeth o erthyglau cyfnodolion, adroddiadau’r llywodraeth, adroddiadau ymchwil, llyfrau a thraethodau lle bo hynny’n berthnasol. Roedd cwmpas y chwiliad yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 2011-2024 er mwyn ffocysu ar gyfnod cyllido Llywodraeth Cymru, ac i gydnabod cyd-destun penodol plismona o 2010 ymlaen. Cafodd ystod eang o dermau chwilio eu cynnwys i sicrhau amrediad o lenyddiaeth i gasglu tystiolaeth o leoedd eraill a allai ddefnyddio terminoleg wahanol. Roedd hyn yn cynnwys:

- 'Swyddog(ion) Cymorth Cymunedol yr Heddlu'
- 'SCCH / PCSO'
- 'Swyddog(ion) Cymorth Cymunedol'
- 'plismona cymunedol'
- 'heddlu cymdogaeth'
- 'cynorthwywyr yr heddlu'
- 'swyddogion diogelwch cymunedol'
- 'swyddogion cyswllt yr heddlu'
- 'swyddogion gwasanaeth cymunedol'
- 'wardeiniaid cymunedol'
- 'chynorthwywyr gwasanaeth heddlu'.

Daeth y chwiliad llyfrgell o hyd i 54 darn o dystiolaeth, gydag 11 ohonynt yn canolbwyntio’n benodol ar Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, 26 ohonynt gyda chwmpas ychydig yn ehangach gyda rhywfaint o berthnasedd i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, a 17 eitem wedi’u nodi o ddiddordeb cyffredinol.

Cafodd canlyniadau'r chwiliad llyfrgell eu hategu gan chwiliadau eraill a gynhaliwyd gan yr awdur. Cafodd tystiolaeth ei chynnwys yn yr adolygiad hwn os ystyriwyd ei bod o ansawdd digonol i'w hystyried ac os oedd ar gael i'r cyhoedd. Ystyriwyd cyfanswm o 39 darn o lenyddiaeth fel rhan o'r adolygiad hwn.

## 2.2. Grwpiau ffocws

Cynhaliodd y tîm Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol o fewn is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru ddau grŵp ffocws 90 munud o hyd gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o bob un o'r pedwar llu, sef Heddlu Gwent, Heddlu De Cymru, Heddlu Dyfed Powys a Heddlu Gogledd Cymru yn ogystal â Heddlu Trafnidiaeth Prydain. Cafodd Swyddogion Plismona'r Gymdogaeth eu cynnwys fel rhan o'r grwpiau i ddarparu ymatebion am rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o gyd-destun sefydliadol ehangach, gan hefyd weithio yn yr un ardal. Gyda chefnogaeth gan Uned Gyswllt yr Heddlu o fewn Llywodraeth Cymru, cysylltwyd â phob llu yn unigol i roi gwybod iddynt am y prosiect, a gofynnwyd iddynt sicrhau bod un Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac un Swyddog Plismona'r Gymdogaeth ar gael ar gyfer pob sesiwn. Er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar y diwrnod gwaith, cynhaliwyd sesiynau'n rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams, hyd at uchafswm o 90 munud, ac ar ddyddiau gwahanol er mwyn sicrhau cymaint o bresenoldeb â phosibl. Mae'n werth nodi bod hyd y cyfnod hwn ar gyfer grwpiau ffocws wedi creu heriau, ac er mwyn mynd i'r afael â'r holl bynciau a chadw'r sesiynau o fewn yr amserlen, roedd yn rhaid cwtogi rhai trafodaethau. Mewn gwaith ymchwil at y dyfodol, efallai y byddai'n werth cynyddu nifer a/neu hyd y sesiynau er mwyn caniatáu trafodaethau mwy manwl.

Llwyddodd y timau i recriwtio cyfanswm o 16 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Swyddogion Plismona'r Gymdogaeth ar draws y ddwy sesiwn, gydag o leiaf un Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac un Swyddog yr Heddlu o bob llu ar gael i fynychu o leiaf un grŵp. Mae'n bwysig cydnabod goblygiadau'r sampl hon ar gyfer canfyddiadau'r grwpiau ffocws, gan na ellir dweud bod y safbwyntiau a'r profiadau a drafodwyd yn gynrychioliadol o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ehangach. At hynny, derbynnir ymhellach fod nifer y Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a siaradwyd â nhw'n cyfyngu ar y gallu i gasglu cipolwg o'r ystod lawn o waith y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n ei gyflawni.

Er mwyn helpu cyfranogwyr i baratoi ar gyfer y grwpiau ffocws, rhannwyd y canllaw trafod a ddefnyddiwyd gan y tîm ymchwil (gweler Atodiad A) ymlaen llaw trwy e-bost, gan roi pwrpas yr ymchwil a chyfle i weld y cwestiynau a fyddai'n cael eu gofyn yn ystod y sesiwn. Cafodd y cwestiynau eu cadw'n eang i gasglu ystod ehangach o ymatebion, gydag ymchwilwyr yn gallu defnyddio awgrymiadau lle bo angen i gadw'r sesiynau ar y trywydd iawn ac i sicrhau bod ymatebion yn berthnasol. Lluniwyd y canllaw trafod er mwyn casglu ymatebion yn ymwneud â chwe thema allweddol a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth:

- cymhellion ar gyfer dod yn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu
- rolau a gweithgareddau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
- Effaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o fewn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu

- ffactorau sy’n galluogi ymarfer effeithiol ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
- rhwystrau a wynebir gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
- goblygiadau gostyngiadau mewn cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru

Arweiniwyd pob sesiwn gan aelod o'r tîm ymchwil, gydag aelod arall o'r tîm yn gweithredu fel hwylusydd ac yn cymryd nodiadau i gefnogi'r gwaith o ddadansoddi’r ymatebion. Cafodd y grwpiau ffocws eu recordio a'u trawsgrifio at ddibenion dadansoddi. Cafodd cyfranogwyr eu hysbysu ar ffurf hysbysiad preifatrwydd cyn dechrau recordio y byddai unrhyw ddata personol megis enwau a rhifau bathodyn yn cael eu cofnodi’n ddienw ym mhob trawsgrifiad i annog ymatebion mwy agored a gonest. Cafodd y trawsgrifiadau eu huwch lwytho i feddalwedd dadansoddi ansoddol MAXQDA i'w dadansoddi. Cafodd yr ymatebion eu hadolygu a’u codio i ddadansoddi prif themâu a ddaeth i’r amlwg, a’u cysylltu’n ôl â'r themâu cyffredinol yn yr adolygiad llenyddiaeth.

# 3. Canfyddiadau’r Adolygiad Llenyddiaeth

## 3.1. Cyflwyniad Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Cafodd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, a elwir weithiau’n Swyddogion Cymorth Cymunedol yn unig, eu cyflwyno am y tro cyntaf yn 2002 fel rhan o Ddeddf Diwygio’r Heddlu 2002. Mae'r rhesymeg ar gyfer eu cyflwyno i'w weld ym Mhapur Gwyn 2001 'Policing A New Century: A Blueprint for Reform' a oedd yn nodi bwriadau'r llywodraeth Lafur ar y pryd ar gyfer diwygio'r heddlu ar ddechrau'r 2000au a'r rôl a welwyd o ran teulu plismona estynedig (Llywodraeth y DU, 2001):

> ‘[beat] officers will routinely and properly be called away from neighbourhood work. Nonetheless, the routine tasks will be important to the local community and a policing presence in some form will play a very big part in reducing anti-social behaviour and disorder and increasing the public’s sense of security…the Government therefore intends to enable chief officers to appoint support staff to provide a visible presence in the community, with powers sufficient to deal with minor issues’. (Llywodraeth y DU, 2001: 85)

Yn benodol, roedd y papur gwyn yn rhagweld y byddai swyddogion o'r fath yn cynnig swyddogaethau fel cymorth gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, materion amgylcheddol, cymorth trefn gyhoeddus, cymorth cyfiawnder troseddol a darparu llygaid a chlustiau ychwanegol ar y stryd bob amser. Er ei fod yn sôn yn benodol am ddylanwad yr Heddlu Metropolitan wrth ddadlau dros y rôl hon, mae'r papur yn dadlau y byddai rolau o'r fath yr un mor bwysig mewn ardaloedd gwledig a byddai eu defnydd a'u pwerau lleol yn cael eu pennu gan brif swyddogion.

Mae Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO), a ddyfynnwyd yn Strickland and Beard (2012), yn ategu'r farn hon ymhellach o rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'u cysylltiad â phlismona cymdogaeth:

> ‘The fundamental role of the PCSO is to contribute to the policing of neighbourhood, primarily through highly visible patrol with the purpose of reassuring the public, increasing orderliness in public places and being accessible to communities and partner agencies working at local level. The emphasis of this role, and the powers required to fulfil it, will vary from neighbourhood to neighbourhood and force to force’. (Strickland and Beard, 2012: 3)

Mae'r cysylltiad hwn rhwng Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Phlismona’r Gymdogaeth yn thema gyffredin yn y llenyddiaeth gyda Longstaff et al. (2015) tynnu sylw at ymddangosiad Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel rhan o ddatblygiad plismona cymdogaeth a'r Rhaglen Plismona Cymdogaeth yn 2005 fel olynydd i'r Rhaglen Plismona Sicrwydd Genedlaethol. Yn wir, fel y nodwyd gan O'Neill (2014a), dadleuwyd nad oedd gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ‘gartref’ o fewn strwythurau’r heddlu yn ystod y blynyddoedd cyntaf ar ôl eu sefydlu. Gwelwyd y byddai cyflwyno Plismona Cymdogaeth, a datblygu Timau Plismona Cymdogaeth ledled Cymru a Lloegr yn datrys hyn, lle byddai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn darparu elfen graidd.

Gan adlewyrchu'r rhesymeg a'r diben gwreiddiol, rhoddwyd pwerau cyfyngedig i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel rhan o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, a gynlluniwyd i gefnogi'r swyddogaethau a amlinellir uchod. I ddechrau, roedd y pwerau hyn yn cael eu cyflwyno i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ôl disgresiwn Prif Swyddogion, ac felly'n destun amrywiaeth, fodd bynnag, yn dilyn Gorchymyn Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 (Pwerau a Dyletswyddau Swyddogion Cymorth Cymunedol) 2007 (SI 2007/3202), ym mis Rhagfyr 2007, cyflwynwyd cyfres o bwerau safonol gofynnol ar gyfer pob Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu i gynnig rhywfaint o gysondeb. Fel rhan o'r newid hwn yn 2007 roedd nifer o bwerau ar gael i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a oedd yn dal i fod yn ôl disgresiwn y Prif Swyddogion.

## 3.2. Esblygiad Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'r gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr

Ers iddynt gael eu cyflwyno ar ddechrau'r 2000 au mae nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi amrywio dros amser, ond roedd y cyfnod ar ôl etholiad cyffredinol y DU 2010 yn her arbennig i niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Mae Longstaff et al. (2015) yn dangos bod niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi cynyddu i raddau helaeth o tua 5000 yn 2005 i oddeutu 16500 yn 2010, yn unol ag ehangu'r gwasanaeth heddlu yn gyffredinol ac ymrwymiad cynyddol i Blismona Cymdogaeth drwy'r Llywodraeth Lafur ar y pryd. Fodd bynnag, yn dilyn etholiad cyffredinol y DU yn 2010 a'r cyfnod cyni dilynol, gwelwyd lleihad sylweddol yng ngweithlu'r heddlu'n gyffredinol yn ogystal â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, fel y gwelir yn ffigur 1 isod.

Nid yw effaith heriau cyllidebol ar heddluoedd a'r gweithlu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi bod yn unffurf. Ers 2011, mae heddluoedd Cymru wedi derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, i gyflogi 500 yn fwy o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar draws y pedwar llu yng Nghymru a Heddlu Trafnidiaeth Prydain yng Nghymru. Pwrpas y cyllid ychwanegol hwn oedd ynysu rhywfaint o'r pwysau ar niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i blismona cymdogaeth a'r uchelgeisiau a nodir uchod:

> 'Bydd y swyddogion hyn yn amlwg iawn yn eu cymunedau, yn ymgysylltu â phobl, yn rhoi sicrwydd ac yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddant yn chwarae rhan ganolog nid yn unig wrth wneud ein cymunedau yn fwy diogel, ond wrth wneud iddynt deimlo'n fwy diogel' (Llywodraeth Cymru, 2011)

Yn 2015, cynhyrchodd Sefydliad Gwyddoniaeth yr Heddlu (UPSI) ym Mhrifysgol Caerdydd werthusiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o Swyddogion Cymorth Cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru (Lowe et al. 2015), a ddaeth i'r casgliad bod buddsoddiad Llywodraeth Cymru wedi cyflawni ei nodau polisi o ran darparu capasiti ychwanegol a lliniaru rhai o effeithiau dadfuddsoddi. Roedd y gwerthusiad yn cynnwys mwy o wybodaeth am sut y defnyddiwyd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, a'u heffaith fel y trafodir yn diweddarach yn yr adroddiad hwn. Fel rhan o Raglen Lywodraethu 2021-2026, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021, gwnaed ymrwymiad pellach i gynnal cyllid ar gyfer y 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ond hefyd i fynd ymhellach ac ehangu'r dyraniad gan ddarparu 100 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol.

Un o'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru yw annibyniaeth weithredol yr heddluoedd wrth benderfynu sut y byddai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu defnyddio a'u gweithgareddau o ddydd i ddydd. Roedd hyn yn golygu bod modd cyfateb eu defnydd gydag anghenion lleol, ond arweiniodd hefyd at sawl canlyniad pellach yn ymwneud â dulliau gweithredu a chyflawni gwahanol (Lowe et al. 2015). Fel y trafodir yn nes ymlaen, mae hyn yn bwysig ar gyfer ystyriaethau o sut mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gweithredu a sut y gallant gyfrannu at uchelgeisiau polisi Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan Lowe et al. (2015), Jones et al (2023) a Grieg-Midlane (2014), mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol i'r lluoedd yng Nghymru wedi creu gwahaniaeth rhwng lluoedd Cymru a Lloegr. O ystyried eu rôl allweddol wrth ddarparu plismona cymdogaeth, a darparu cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned, mae Grieg-Midlane (2014) yn dadlau bod gweithlu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu cryfach yn awgrymu bod swyddogaethau diogelu cymunedau'n cael blaenoriaeth.

Gellir gweld sut mae'r cyllid ychwanegol wedi effeithio ar niferoedd SCCH yng Nghymru a Lloegr yn Ffigur 1 gan ddefnyddio data gweithlu'r heddlu a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref.

Mae Ffigur 1 yn dangos niferoedd SCCH yng Nghymru rhwng 2010 a 2024 ac mae'n dangos yn glir bod niferoedd SCCH wedi cyrraedd uchafbwynt yn 2014, gan amrywio rhwng 800 a 1000 o SCCH rhwng 2015 a 2024 ond yn parhau i fod yn uwch nag yn 2010.

**Ffigur 1: Niferoedd SCCH yng Nghymru yn ôl ardal grym 2010-2024**




(Y Swyddfa Gartref, 2025)

Disgrifiad o Ffigur 1: siart llinell sy'n dangos nifer y SCCH y flwyddyn rhwng 2010 a 2024. Mae'r siartiau llinell yn dangos patrwm eang o niferoedd PCSO yn cyrraedd uchafbwynt yn 2013 a 2014, gan leihau trwy 2016 i 2020. Rhwng 2021 a 2024, roedd amrywiad yn y gwahanol luoedd, gyda Heddlu De Cymru yn cyrraedd uchafbwynt yn 2023, gyda'r lluoedd eraill yn parhau i fod yn sefydlog, ond yn parhau i fod yn uwch nag yn 2010.

Mae Tabl 1 yn cymharu cyfanswm nifer y PCSOs yng Nghymru â Lloegr. Mae'n dangos bod nifer y PCSOs yng Nghymru wedi cynyddu rhwng 2010 a 2024 o gymharu â Lloegr lle mae'r nifer wedi gostwng.

Tabl 1 - Niferoedd SCCH yng Nghymru a Lloegr 2010-2024 (Y Swyddfa Gartref, 2025)

| | 2010 | 2014 | 2017 | 2020 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cymru | 718 | 1100 | 902 | 807 | 878 |
| Cyfanswm Lloegr | 16,200 | 11,966 | 9311 | 8373 | 6661 |

Mae Ffigurau 2 a Thabl 2 yn dangos niferoedd Swyddogion Heddlu yng Nghymru a Lloegr. Gyda'i gilydd, mae Ffigur 2 a Thabl 2 yn dangos bod y pwysau ar niferoedd swyddogion yr heddlu wedi bod yn weddol debyg ledled Cymru a Lloegr rhwng 2010 a 2024, gyda'r ddau ranbarth yn profi pwysau staffio tua chanol y 2010au.

**Ffigur *2* - Niferoedd Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru yn ôl ardal y llu 2010-2024**




(Y Swyddfa Gartref, 2025)

Disgrifiad o Ffigur 2: siart llinell o niferoedd swyddogion heddlu yn gostwng rhwng 2010 a 2017, gyda Heddlu De Cymru yn dechrau cynyddu nifer yn gynharach yn 2015 gyda'r lluoedd eraill yn cynyddu'n raddol o 2017, gan ddychwelyd i lefelau 2010 neu uwch ar draws yr holl heddluoedd erbyn 2024.

Tabl 2 - Niferoedd Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr 2010-2024 (Y Swyddfa Gartref, 2025)

| | 2010 | 2014 | 2017 | 2020 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cymru | 7370 | 6717 | 6543 | 6998 | 8076 |
| Cyfanswm Lloegr | 136,364 | 121,192 | 111,536 | 122,112 | 139,670 |

O'r data hwn, mae'n amlwg bod Cymru a Lloegr wedi gweld pwysau sylweddol ar niferoedd swyddogion yr heddlu drwy'r 2010au, fodd bynnag, mae cynnal niferoedd SCCH yng Nghymru wedi amddiffyn rhywfaint rhag y pwysau ehangach ar niferoedd yr heddlu yng Nghymru.

## 3.3. Gweithgareddau a rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Yn ogystal â newidiadau yn niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu dros amser, mae'n bwysig ystyried rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, sut maent yn cael eu defnyddio a'u pwerau cysylltiedig. O'r llenyddiaeth ceir themâu cyffredin ac ailadroddus ynghylch amrywiad lleol, cydbwysedd swyddogaethau cymorth cymunedol a chefnogaeth yr heddlu ac esblygiad eu pwerau dros amser.

Wrth ystyried rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, mae'r Coleg Plismona yn fframio rôl a phwrpas Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn llawlyfr Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu 2022 fel a ganlyn:

> ‘the fundamental role of a PCSO is to contribute to the policing of neighbourhoods through targeted visible patrols, with the purpose of engaging with and reassuring the public; increase orderliness in public places; being accessible to communities; and working at a local level with stakeholders to solve or mitigate issues, problems or safety concerns faced by the community’ (Coleg Plismona, 2022:13)

Mae'n werth nodi bod y diffiniad hwn yn gwbl gyson â safbwynt ACPO ar rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ddyfynnwyd yn Strickland and Beard (2012) . Wrth fynd ar drywydd y rôl hon, mae llawlyfr 2022 yn nodi bod rhan allweddol o waith Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cynnwys treulio cyfnodau estynedig o amser o fewn cymunedau yn hytrach na chael eu clymu i swyddogaethau gweinyddol eraill neu dreulio gormod o’u hamser yn eu gorsafoedd heddlu lleol. Fel y nodwyd gan Longstaff et al. (2015), mae'r ffocws ar batrolau troed a throchi cymunedol, yn hytrach na gwaith papur a gwaith desg, yn cael ei ystyried yn elfen bwysig wrth alluogi ymgysylltu â'r gymuned a datblygu cyfalaf cymdeithasol.  Ar ben hynny, gwelwyd bod ymgysylltu â'r gymuned a datblygu cyfalaf cymdeithasol mewn ardal leol yn rhan allweddol o ddull gweithredu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu:

> ‘social capital is crucial to the work of PCSOs…PCSOs are meant to get to know their beat and the people within it well. Building up contacts in the community is vital for this, not only to help solve problems for individuals, but also to find solutions to community issues’ (O’Neill, 2014: 6).

Fel y nodwyd gan Weston fel rhan o astudiaeth Ddoethuriaeth, roedd y gallu i hyrwyddo ymgysylltiad â'r gymuned yn aml yn gysylltiedig â phatrolau troed gweladwy gan ei fod yn cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer cyswllt rhyngbersonol rhwng Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac aelodau o'r gymuned. Yn ogystal, gwelwyd bod amlder patrolau troed mewn ardaloedd yn helpu i ddatblygu'r berthynas maen nhw'n ei rhannu ag aelodau o'r cyhoedd yn anffurfiol ac yn ffurfiol. Mae mynychu'r un lleoedd a dod ar draws yr un bobl yn caniatáu i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu adeiladu ar achlysuron o weld y bobl hyn yn flaenorol er mwyn dysgu mwy amdanynt a’u hardaloedd (2020: 205). Yna maen nhw’n mynd ymlaen i nodi sut mae gallu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i gyfathrebu’n cael ei gyfyngu am nifer o resymau, megis defnyddio cerbydau ar gyfer patrolau, penderfyniadau penodol am leoliad a llwybrau ar gyfer patrolau troed. Bydd hyn yn cael ei drafod yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad wrth ystyried rhwystrau i gyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac ymgysylltu â'r gymuned.

Mae'r rhain yn gyson â'r dull a nodir yn llawlyfr Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu 2022, sy'n awgrymu y dylai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu:

- Ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gymuned leol y maent yn gweithredu ynddi i adnabod a chefnogi’r rhai yn eu cymuned yr effeithir arnynt gan droseddu a'r rhai sy'n agored i niwed neu mewn perygl
- Ymgysylltu'n rhagweithiol, datblygu cysylltiadau gwaith agos â'r gymuned
- Meithrin perthynas, ymddiriedaeth a hyder gydag unigolion ar draws y gymuned, gan ddarparu cyngor ac arweiniad i gefnogi eu hanghenion

Wrth ddisgrifio rôl y Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, roedd Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (ACPO) yn dadlau yn benodol y dylai rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu bob amser aros o fewn fframwaith plismona cymdogaeth gyda phwyslais ar ymgysylltu yn hytrach na gorfodi, ac er mwyn eglurder, dylid gwahaniaethu rhwng rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a rôl swyddog yr heddlu.

## 3.4. Pwerau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Gan adlewyrchu'r ffocws mwy penodol hwn ar gefnogaeth ac ymgysylltu â'r gymuned, rhoddir set fwy cyfyngedig o bwerau i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o'i gymharu â Swyddogion yr Heddlu. Fel y disgrifiwyd gan Strickland and Beard (2012), pan gyflwynwyd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn y lle cyntaf, roedd y pwerau a oedd ar gael iddynt yn ôl disgresiwn y Prif Gwnstabl yn llwyr, a byddai modd iddynt dynnu ar ystod o bwerau a gynhwysir yn rhan 1 o Ddeddf Diwygio’r Heddlu 2002. Yn 2007. Fel rhan o Orchymyn Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 (Pwerau a Dyletswyddau Safonol Swyddogion Cymorth Cymunedol) 2007, rhoddwyd nifer o bwerau safonol i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, gyda rhai pwerau yn parhau i fod yn ôl disgresiwn prif swyddogion.

Yn 2017 diwygiwyd y ffordd y dynodir pwerau i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gyda'r rhestr flaenorol o bwerau safonol a dewisol wedi'i dileu. Yn eu lle, roedd Deddf Plismona a Throseddu 2017 yn golygu bod yn rhaid i brif swyddogion benderfynu pa bwerau yr oeddent am eu dynodi i'w Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Wrth ddewis pwerau, byddai modd gwneud yr holl bwerau sydd gael i Gwnstabliaid yr Heddlu ar gael i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ac eithrio’r rhai a amlinellir yn atodlen 10 Deddf Heddlu a Throseddu 2017, a oedd yn cynnwys pwerau i arestio, stopio a chwilio, gan fod angen bod yn swyddog heddlu ar gyfer y rhain (Coleg Plismona, 2022).

I O'Neil, Maillard a van Stedan, roedd y newid hwn yn cynrychioli ehangu pwerau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a drafodwyd ganddynt fel rhan o newid i gyfeiriad sy'n tynnu sylw at elfennau gorfodi'r rôl (2022: 10). Yn wir, gan nodi'r newidiadau hyn ynghylch pwerau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (yn ôl disgresiwn y Prif Swyddogion), mae'r Coleg Plismona yn nodi y dylid ystyried a all unrhyw bŵer a roddir i Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu arwain at gynnydd mewn gorfodi yn hytrach na chanlyniad nad yw'n gosbi sy'n canolbwyntio ar y gymuned (2022: 7).

## 3.5. Amrywiad

Wrth ystyried gwaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ymarferol, roedd y llenyddiaeth yn canolbwyntio’n fras ar rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wrth gefnogi swyddogaethau plismona cymdogaeth (Coleg Plismona, 2022). Yn y llenyddiaeth, roedd yn amlwg bod y gweithgareddau unigol y gallai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fod yn cymryd rhan ynddynt i gyflawni’r swyddogaeth hon yn niferus (O'Neill, 2014b; Coleg Plismona, 2022). Fodd bynnag, roedd rhai egwyddorion sylfaenol cyffredin yn canolbwyntio ar y syniad o gynyddu gwelededd, hygyrchedd a darparu sicrwydd, a'r briff ffordd o gyflawni hyn oedd patrolau hygyrch o fewn cymunedau lleol.

Er bod y llenyddiaeth yn trafod fframio cyson o amgylch egwyddorion arweiniol gweithgareddau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, roedd amrywiaeth o ran gweithgareddau’r swyddogion hyn yn cael ei nodi’n aml. Mae'r amrywiad hwn wedi bod yn nodwedd barhaus o ran cyflawni gwaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (Longstaff et al., 2015), a chafodd ei nodi yng ngwerthusiad y Rhaglen Plismona Sicrwydd Genedlaethol (Tuffin, Morris, a Poole, 2006). Mae'r amrywiad hwn wedi'i nodi mewn perthynas â'r pwerau sydd ar gael i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (a drafodwyd uchod), iwnifform Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (Casey, 2008) ac o ran y gweithgareddau penodol y maent yn eu cyflawni (O'Neill, 2014b; Higgins, 2018).

Roedd gwerthusiad o swyddogion cymorth cymunedol a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015, yn nodi amrywiaeth sylweddol yng ngweithgarwch Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn lleoliadau astudiaethau achos ledled Cymru. Fel y nodwyd yn y gwerthusiad, roedd yr amrywiad hwn yn ymateb i raddau helaeth i gyd-destun, anghenion a gofynion plismona lleol penodol, ac mae’r sefyllfa leol y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn delio â hi yn golygu y gall realiti eu gweithgareddau o ddydd i ddydd fod yn wahanol iawn (Lowes et al, 2015: 64).

Nodwyd hefyd ystyriaeth o sut y gall cyd-destunau daearyddol gwahanol effeithio ar gydbwysedd gwaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gyda'r math o ymgysylltu cymunedol sydd ei angen yn amrywio ar draws cyd-destunau trefol a gwledig, a gwahanol

fathau o gymunedau. Mae’r angen i adlewyrchu cyd-destunau lleol a gofynion plismona hefyd yn cael ei nodi yn llawlyfr Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn perthynas â dewis pwerau, sy’n nodi y dylai pwerau diamod a ddefnyddir gan Swyddogion Cymorth Cymunedol barhau i gael eu pennu gan brif swyddogion yn seiliedig ar eu gofynion plismona eu hunain (Coleg Plismona, 2022). Nodwyd natur cefn gwlad hefyd mewn rhai achosion lle roedd gofyn i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gwmpasu ardaloedd ehangach a oedd yn golygu defnyddio cerbydau a threulio llai o amser ar batrolau troed (Oldfield, 2021). Roedd rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig iawn yn dangos tueddiad i raddau tuag at ymdeimlad o ddiogelwch ymysg y cyhoedd pan fo Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar batrolau troed o’i gymharu â phan fyddant yn defnyddio cerbyd (Oldfield, 2021: 28). Daeth gwaith ymchwil arall a wnaed fel rhan o Ddoethuriaeth i’r casgliad bod mwy a mwy o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn defnyddio cerbydau mewn ardaloedd plismona cymdogaeth ehangach er gwaethaf rhywfaint o gydnabyddiaeth y gallai gyfyngu ar eu gallu i gyfathrebu (Weston, 2020: 206)

## 3.6. Cymorth cymunedol vs cymorth yr heddlu

Wrth ystyried amrywiadau yng ngwaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, gwahaniaeth defnyddiol a chyffredin yn y llenyddiaeth oedd i ba raddau yr oedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ymwneud â swyddogaethau 'Cymorth Cymunedol' neu swyddogaethau 'Cymorth Heddlu'. Gwnaed gwahaniaeth o'r fath yn y gwerthusiad o Swyddogion Cymorth Cymunedol Llywodraeth Cymru yn 2015. Disgrifiwyd 'cymorth cymunedol' fel canolbwyntio ar weithgareddau ymgysylltu a chyflawni'r mathau o dasgau sy'n helpu i feithrin a chefnogi cydlyniant cymunedol, a disgrifiwyd 'cymorth yr heddlu' fel Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu’n ymgymryd â thasgau a oedd yn cael eu cyflawni gan Gwnstabliaid yr Heddlu yn y gorffennol (2015: 65). Roedd y gwerthusiad yn glir bod y rhain yn cynrychioli mathau delfrydol, ac yn ymarferol mae gweithgarwch Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cynnwys elfennau o'r ddau, ac nid oedd y gwerthusiad ychwaith yn rhoi barn ar yr hyn a ystyriwyd yn fwy dilys. Roedd yr adroddiad yn cydnabod bod dealltwriaeth mai lle ceir cyfuniad o elfennau allweddol o swyddogaethau 'cymorth yr heddlu' a 'chymorth cymunedol' y mae'r canlyniadau gorau i gymunedau yn digwydd (Innes et al, 2015: 71). Fodd bynnag, roedd yn awgrymu bod y cyfnodau cyni wedi gwthio cydbwysedd gweithgareddau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu tuag at fwy o dasgau cymorth i’r heddlu.

Mae hyn yn gyson â llenyddiaeth arall. Nododd adroddiad gan Sefydliad yr Heddlu, er bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi cael eu hystyried yn gefn mawr o ran ymgysylltu â'r gymuned a gweithredu’n rhagweithiol yn yr ardal leol, mae’r swyddogion hyn hefyd yn cyflawni rôl ehangach nag a ddyfeisiwyd yn wreiddiol, gan gynnwys elfennau o ymateb i ddigwyddiadau, gwaith cymorth yr heddlu, a gwaith diogelu/asesu risg (Higgins, 2015: 65). Fel gyda gwerthusiad 2015 gan Innes et al, mae'r Sefydliad Heddlu yn tynnu sylw at bwysau ar gapasiti gweithlu a mesurau cyni fel her i blismona cymdogaeth yn ehangach.

Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth fod y cydbwysedd hwn rhwng ‘cymorth cymunedol’ a ‘chymorth i’r heddlu’ yn destun tensiwn. I O'Neill (2014b), er bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu gweld yn gwasanaethu buddiannau ac anghenion y gymuned leol, maen nhw hefyd yn cyflawni rôl ddeuol fel rhywun sy’n casglu cudd-wybodaeth i’r heddlu, a allai achosi gwrthdaro ar adegau. Roedd O’Neill yn dadlau bod

strwythurau heddlu lleol yn rhoi mwy o bwyslais ac arwyddocâd ar Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n darparu cudd-wybodaeth, neu sy'n cefnogi swyddogaethau heddlu traddodiadol ynghylch arestio na'r rhai sy'n ymgysylltu fwyaf effeithiol gyda chymunedau.

Yn yr un modd, roedd tystiolaeth a gasglwyd fel rhan o Ddoethuriaeth yn edrych ar y sgyrsiau a ddefnyddiwyd gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wrth gyflawni eu dyletswyddau yn dangos tystiolaeth o'r angen i gydbwyso gofynion sy'n cystadlu o ran plismona cymunedol. Darperir amrywiaeth o enghreifftiau o sut mae disgwyl i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gydbwyso gofynion cefnogi'r gymuned a darparu sicrwydd gan hefyd gynrychioli buddion yr heddlu, gorfodi rheolau a chasglu tystiolaeth, hyd yn oed o fewn yr un rhyngweithiadau (Wegorowski, 2018).

O ystyried natur amrywiol rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, yn enwedig yng nghyd-destun gwahanol luoedd gyda daearyddiaeth a demograffeg gwahanol iawn, nododd Sutherland (2014) bum 'math' o Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu trwy weithdai a chyfweliadau gyda goruchwylwyr.

Mae'r math 'Traddodiadol' yn dilyn bwriad gwreiddiol rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu pan gafodd ei chreu yn y lle cyntaf, gyda phwyslais ar ddarparu gwelededd a sicrwydd ar ffurf patrolau troed mewn ardaloedd lleol. Er mwyn gwneud hyn, mae'r 'math' traddodiadol yn ymdrechu i leihau dyletswyddau sy'n eu symud oddi wrth batrolau gweledol, ac o ganlyniad, maent yn fwy tebygol o fod yn adnabyddus o fewn y gymuned. Mae Sutherland yn nodi bod y math hwn o Swyddog hyn yn tueddu i aros yn y rôl yn hirach nag eraill.

Mae'r math 'Swyddog Heddlu Cynorthwyol' yn fwy tebygol nag eraill i ymateb i ddigwyddiadau hyd yn oed os ydynt y tu allan i'w maes gwaith arferol, yn enwedig os yw'r gwaith yn debycach i'r gwaith a wneir gan Swyddogion yr Heddlu. Roedd y Swyddogion hyn yn dueddol o fod yn iau neu'n fwy newydd i'r gwasanaeth ac yn debygol o fod â bwriad i ymgeisio i fod yn swyddog heddlu, ac yn cael eu gwerthfawrogi o fewn lluoedd o ganlyniad i'w cyfraniad tuag at dargedau diffiniedig a mesuradwy.

Mae'r 'Arbenigwr' yn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n derbyn dyletswyddau thematig penodol megis mentrau diogelwch cymunedol o ganlyniad i arbenigedd a sgiliau a ddatblygwyd, neu i gael ei neilltuo i ardal ddaearyddol benodol o ganlyniad i set o sgiliau sy'n bodoli eisoes, megis siarad sawl iaith.

Mae'r 'Trefnydd Cymunedol' yn cymryd rôl weithredol wrth sefydlu partneriaethau lleol ac adnabod a chysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu cynlluniau gweithredu cymunedol. Mae'r trefnydd cymunedol yn gallu gweithio'n annibynnol a chymryd rôl flaenllaw mewn digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned.

Nid yw'r 'Siwt wag' yn perfformio unrhyw un o'r rolau disgwyliedig ar gyfer Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ac mae'n gyson yn methu ag ymgysylltu gyda'r cyhoedd neu ddarparu presenoldeb gweladwy yn y cymunedau mae'n eu gwasanaethu. Yn hytrach, mae'n treulio mwy o amser yn ei orsaf yn hytrach nag ar batrolau troed.

Mae'n bwysig nodi bod Sutherland yn egluro y bydd y rhan fwyaf o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ymgorffori sawl un o'r mathau hyn o bobl, os nad bob un, gyda dim ond lleiafrif bach yn dod o dan y pumed math. Nid yw'n bosibl chwaith os yw natur y mathau hyn yn ddibynnol ar wahaniaethau unigol mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, neu ddyraniad eu dyletswyddau o fewn anghenion yr ardal lle maent yn gweithio.

## 3.7. Dyletswyddau eraill

Yn ogystal â'r tensiynau a nodwyd rhwng swyddogaethau 'cymorth cymunedol' a 'chymorth yr heddlu', roedd thema'n codi dro ar ôl tro yn y llenyddiaeth ynghylch 'dyletswyddau eraill', a'r syniad na ddylai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gael y dasg o gyflawni dyletswyddau a swyddogaethau nad ydynt yn rhan greiddiol o'u rôl neu nad ydynt wedi'u hyfforddi ar eu cyfer (ACPO, 2007: 12). Mae O'Neill (2014b) yn dadlau mai swyddogaethau craidd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yw ymgysylltu â chymunedau ac wrth wneud hynny, mai adnabod eu hardaloedd a'r bobl sydd ynddynt yw'r hyn sy'n gwneud Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn fwyaf effeithiol (2014b: 5). Fodd bynnag, mae O'Neill yn tynnu sylw at y ffaith bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn dargedau hawdd i'w tynnu i ardaloedd eraill, ac er bod hyn wedi helpu i leddfu pwysau tymor byr, os byddai'n parhau i ddigwydd, byddai digwyddiadau o'r fath yn peryglu gallu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i ddatblygu'r cyfalaf cymdeithasol hirdymor hwnnw. Ymhlith yr enghreifftiau a nodwyd gan O'Neill roedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu defnyddio i lenwi bylchau mewn ardaloedd cymdogaeth eraill, yn cael eu hadleoli i ardaloedd eraill i gefnogi gweithrediadau wedi'u targedu, neu'n cael eu defnyddio i batrolio 'mannau troseddu aml', sy'n ardaloedd bach iawn fel arfer, i ffwrdd o'u hardaloedd cymdogaeth eu hunain.

Roedd enghreifftiau eraill o ddyletswyddau eraill a nodwyd yn y llenyddiaeth yn cynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu defnyddio o fewn gorsafoedd heddlu oherwydd biwrocratiaeth (Tŷ'r Cyffredin, 2008: 335), neu fater mwy cyffredin a nodwyd yn y llenyddiaeth, bod eu llwyth gwaith yn cael ei effeithio gan dasgau adweithiol (Higgins a Hales, 2017). Mae ymgysylltiad Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn gweithgareddau a gynhaliwyd gynt gan swyddogion yr heddlu, neu i gefnogi staff yr heddlu mewn sefyllfaoedd penodol lle mae tebygolrwydd uchel o wrthdaro, megis economi gyda'r hwyr, yn codi cwestiynau ynghylch hyfforddiant, pwerau ac amddiffyniad ar gyfer y sefyllfaoedd hynny.

> 'PCSO numbers are being cut and, in some places, their roles redesigned. In general, they are performing a broadened role, including elements of response, police support work and safeguarding in addition to their community focused role. Some PCSOs expressed discomfort at the risks and responsibilities they were being asked to carry and concerns that this is pushing them to the limits of their training and powers'. (Higgins, 2018: 48)

> 'The feelings of having inadequate powers are due to PCSOs being directed to deal with incidents not appropriate for the role and used as a substitute for police officers'. (Oldfield: 2021:48)

## 3.8. Cyni a phwysau ar rolau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Nid yw mater dyletswyddau eraill a dargyfeirio adnoddau ac amser Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu oddi wrth ymgysylltu â'r gymuned o reidrwydd yn ffenomen newydd. Yn adolygiad Casey yn 2008, nodwyd bod rhai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn pryderu ynghylch dyletswyddau eraill o ran Swyddogion Cymorth Cymunedol yn cael eu tynnu oddi ar batrolau troed a'u dargyfeirio at dasgau eraill megis gofalu am ddesg y dderbynfa mewn gorsafoedd heddlu (2008: 31). Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod cyfnodau o gyni a chyfyngiadau ar gapasiti wedi annog y defnydd o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i atgyfnerthu capasiti plismona fel y nodwyd yng ngwerthusiad 2015 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru. Mae'n nodi bod symudiad hefyd tuag at ddirprwyo tasgau a fyddai wedi'u cyflawni gan swyddogion yr heddlu yn draddodiadol i gronfa fwy o Swyddogion Cymorth Cymunedol, gan awgrymu gwneud iawn am weithlu sy'n lleihau a newid sefydliadol i ryw raddau drwy amnewid cyfrifoldebau (2015: 69).

Yn 2016 cynhaliodd undeb Unison arolwg o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a oedd yn canolbwyntio ar effaith toriadau cyllid i'r heddluoedd a niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn Lloegr (gyda niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu diogelu yng Nghymru oherwydd cyllid Llywodraeth Cymru). Yn yr arolwg, a anfonwyd at Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a oedd yn aelod o UNISON, dywedodd 57% o'r rhai a ymatebodd eu bod wedi rhoi'r gorau i gyflawni rhai dyletswyddau plismona cymdogaeth craidd er mwyn cael eu hadleoli i waith sy'n eu cadw oddi ar batrolau troed. Yn yr ymatebion testun agored, mae llawer o'r ymatebion yn cyfeirio at ddiwallu anghenion ymateb i droseddu.  (UNISON, 2016).

Yn yr un modd, mae O'Neill et al yn dadlau bod tystiolaeth o symudiad tuag at gyfeiriad sy'n amlygu elfennau gorfodi rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (2022: 10). Maen nhw'n dadlau bod y symudiad hwn yn cael ei arwain yn rhannol gan bwysau mewnol tuag at 'blismona go iawn' sydd wedi cynyddu o ganlyniad i bwysau allanol cyni a phwysau ar gapasiti Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'r heddlu yn ehangach. Dadleuir bod pwysau o'r fath wedi tynhau sianeli recriwtio ac wedi helpu i atgyfnerthu'r syniad bod rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn llwybr i ennill profiad ar gyfer ceisiadau i ddod yn gwnstabl, a bod y rôl yn datblygu i fod yn faes hyfforddi ar gyfer darpar swyddogion yr heddlu (O'Neill et al., 2022: 11). Roedd pwynt tebyg hefyd yn amlwg yng ngwerthusiad Llywodraeth Cymru yn 2015 lle honnwyd fod rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n cael ei hystyried fwyfwy gan luoedd fel carreg gamu i ymuno â'r gwasanaeth heddlu, yn hytrach na rôl unigryw ynddi'i hun (Innes et al., 2015: 72)

Yn ogystal â phryderon ynghylch sut y gall pwysau yn y gwasanaeth heddlu ehangach effeithio ar y math o waith y gofynnir i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ei wneud, ceir rhywfaint o dystiolaeth ynghylch sut mae toriadau ehangach mewn lleoliadau eraill yn effeithio ar waith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu . Canfu arolwg UNISON o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fod 16% o'r ymatebwyr yn ymgymryd â gwaith y maent yn credu y dylai fod yn gyfrifoldeb asiantaeth arall drwy'r amser, gyda 53% arall yn adrodd eu bod yn ymgymryd â'r gwaith hwn 'yn rheolaidd' (Unison 2016: 9). Yn yr un modd, adroddodd Higgins bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn un llu wedi cael

cyfrifoldeb dros gysylltu gyda chartrefi gofal lleol a rhoi cynlluniau unigol ar waith ar gyfer plant sy’n cael eu hystyried mewn perygl... roedd y Swyddogion Cymorth Cymunedol hyn yn teimlo nad oeddent wedi derbyn hyfforddiant digonol ar gyfer y dasg, ac nid oeddent yn gyfforddus yn ysgwyddo’r cyfrifoldeb ychwanegol hwn (2018: 48). Gellir gweld enghraifft o hyn yn y gwerthusiad o’r Rhaglen Ymyrraeth Gynnar, Ystyried y Teulu. Er ei fod yn gadarnhaol am rinweddau llwyddiant y rhaglen, roedd y gwerthusiad yn cynnwys rhywfaint o ganfyddiadau’n ymwneud ag a ddylai'r heddlu, ac yn arbennig Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, fod yn cymryd yr awenau mewn ymyrraeth gynnar nad oedd swyddogion bob amser wedi’u hyfforddi i ymdrin â nhw, yn enwedig achosion cymhleth (Bradbury Jones et al., 2021)

## 3.9. Tystiolaeth o ddyletswyddau eraill yng Nghymru

Mae'n bwysig nodi bod llawer o'r llenyddiaeth uchod yn cyfeirio at Gymru a Lloegr, ac o ystyried y cyllid ychwanegol yng Nghymru ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ni ellir tybio bod y materion am ddyletswyddau eraill a grybwyllir uchod yn berthnasol i gyd-destun Cymru. Er bod y sylfaen dystiolaeth yng Nghymru yn brin, roedd gwerthusiad 2015 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yng Nghymru yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth yn ymwneud â gwaith y Swyddogion hyn a’r risg o gael eu tynnu i gyflawni dyletswyddau eraill. Er enghraifft, dadleuwyd bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yn cymryd mwy a mwy o gyfrifoldeb dros ymateb i alwadau ynghylch anrhefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a galwadau nad ydynt yn ymwneud â throsedd gan y cyhoedd. Cafwyd cydnabyddiaeth fod hyn yn rhyddhau amser swyddogion heddlu, ond ar yr un pryd, yn cyfyngu ar allu Swyddogion Cymorth Cymunedol i gyflawni gwaith ymgysylltu i ryw raddau (2015: 71). Yn ogystal, er bod niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi cael eu cynnal o ganlyniad i gyllid Llywodraeth Cymru, cafwyd tystiolaeth fod rolau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu’n cael eu heffeithio i raddau gan gyd-destun ariannu plismona a niferoedd swyddogion yr heddlu yn ehangach - ceir hefyd symudiad tuag at ddirprwyo tasgau a fyddai wedi cael eu cyflawni’n draddodiadol gan swyddogion yr heddlu i’r gronfa fwy o Swyddogion Cymorth Cymunedol, gan awgrymu gwneud iawn i ryw raddau am weithlu sy’n lleihau a newid sefydliadol drwy amnewid cyfrifoldebau (2015: 69).

Yn ogystal â gwerthusiad 2015, ffynhonnell wybodaeth arall sy'n darparu rhywfaint, ond dim llawer, o fewnwelediadau i faterion dyletswyddau eraill Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yw’r amrywiaeth o adroddiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi a gyhoeddwyd yn 2016. Codwyd y mater o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu gofyn i ymateb i ofynion adweithiol, ac i gyflawni tasgau sy'n nodweddiadol yn gysylltiedig â swyddogion yr heddlu mewn adroddiad Effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi yn 2016: Adroddiad effeithiolrwydd yr heddlu (Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi, 2016a). Fel rhan o adolygiad Effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu 2016, bu Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi yn adolygu heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y pedwar llu yng Nghymru. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnig cipolwg ar i ba raddau yr oedd dyletswyddau eraill yn broblem yng Nghymru. Yn gyffredinol, canfu Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi fod pob llu yng Nghymru yn defnyddio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn unol â chanllawiau Coleg yr Heddlu a bod ganddynt brosesau i sicrhau bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gallu cynnal lefelau digonol o

ymgysylltiad â'r gymuned. Er bod tystiolaeth o dynnu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i ddyletswyddau eraill o fewn heddluoedd yng Nghymru, mae adroddiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi ar gyfer pob llu'n awgrymu'n gryf mai prin iawn y mae'r Swyddogion hyn yn cael eu tynnu oddi wrth swyddogaethau cymdogaeth.

Yn Heddlu Dyfed Powys (HMIC 2017), daeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi i'r casgliad er bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu symud ar adegau i gyflawni dyletswyddau ymateb megis gwarchod safleoedd trosedd, maen nhw'n treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn eu cymunedau'n gweithio gydag aelodau'r cyhoedd er mwyn atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Yn Heddlu Gwent, roedd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi yn nodi bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ymgysylltu â chymunedau lleol ac yn nodi ac yn datrys problemau lleol yn unol â chanllawiau cenedlaethol (HMICb, 2017: 12). Canfu hefyd fod gan Heddlu Gwent bolisi llym i sicrhau bod amser Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn canolbwyntio ar eu rôl gymdogaeth.

Yn Heddlu Gogledd Cymru, mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi yn dod i'r casgliad bod y llu'n cyflogi Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn unol â chanllawiau'r Coleg Plismona. Maen nhw'n cael eu tynnu i gyflawni dyletswyddau ymateb eraill megis gwarchod safleoedd trosedd, neu i gefnogi gweithrediadau mawr, ond maent yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn y gymuned (HMIC, 2017c: 17)

Yn Heddlu De Cymru, nododd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi bod faint mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n cael eu tynnu i gyflawni dyletswyddau eraill yn gymedrol, ac nid yw'n eu hatal rhag cyflawni eu gwaith yn effeithiol. Nid yw Swyddogion Cymorth Cymunedol yn cael eu defnyddio i gyflawni dyletswyddau ymateb, a dim ond yn achlysurol y byddant yn cael eu defnyddio i gasglu datganiadau neu gyflawni tasgau megis ymholiadau o dŷ i dŷ (HMIC, 2017d:13). Mae adroddiad HMIC yn cyfeirio at ddata gan Heddlu De Cymru sy'n dangos bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn treulio rhwng 70 ac 80 y cant o'u hamser yn gweithio yn eu cymunedau.

Mae'n werth nodi bod yr adroddiadau hyn yn dyddio'n ôl i 2017 ac felly nid ydynt yn darparu darlun cyfredol o sut mae rolau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi ymateb i bwysau parhaus yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Nid yw adroddiadau Effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu mwy diweddar a gynhaliwyd fel rhan o arolygiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi yn cynnwys manylion am ddefnyddio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a materion yn ymwneud â dyletswyddau eraill.

## 3.10. Cyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Cyn ymchwilio i gyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mae'n bwysig nodi bod byrdwn cyson yn y llenyddiaeth, ei bod hi'n anodd asesu a nodi 'effaith' Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o ganlyniad i'r dirwedd gymhleth y maent yn gweithredu ynddi a natur y buddion maen nhw'n eu darparu. Mae pethau fel ymgysylltu â'r gymuned, ymddiriedaeth a chyfreithlondeb, a hyder mewn plismona yn anodd eu mesur ac maent yn cael eu heffeithio gan nifer o ffactorau y tu hwnt i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Mae hyn hefyd yn wir gyda chanfyddiadau o ddiogelwch, ac achosion troseddu ac

anhrefn lle mae effaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn debygol o fod yn gyfyngedig o'i gymharu â ffactorau a gyrwyr ehangach eraill.

Fel y cyfryw, nid yw'r adran hon yn asesu effaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gan nad oes digon o dystiolaeth ar gael i wneud hynny. Yn hytrach, mae'r adran hon yn adrodd ar ganfyddiadau o'r llenyddiaeth sy'n rhoi cipolwg ar y math o gyfraniadau y gall Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu eu gwneud i blismona a chymunedau.

Wrth ystyried cyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu bydd y canfyddiadau o'r llenyddiaeth yn cael eu rhannu'n bedwar maes eang: Ymgysylltu â'r gymuned a chanfyddiadau o'r heddlu, gwelededd a chanfyddiadau o ddiogelwch, lleihau ac atal troseddu, a recriwtio ac amrywiaeth yr heddlu.

## 3.11. Ymgysylltu â'r gymuned, ymddiriedaeth y cyhoedd a chyfreithlondeb

Fel yr archwiliwyd mewn adrannau cynharach, rhesymeg allweddol wrth gyflwyno Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i'r dirwedd plismona lleol oedd y byddent yn helpu i wella ymgysylltiad cymunedol ac yn helpu i wella a chynnal perthnasoedd rhwng cymunedau a'r heddlu, a thrwy hynny wella hyder a chanfyddiadau lleol o ymddiriedaeth a chyfreithlondeb. Canfu adolygiad 2015 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru nifer o achosion lle roedd heddluoedd yn defnyddio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i gymryd rhan mewn gwaith cymunedol a gweithgarwch cydlyniant cymunedol gyda'r nod o adeiladu perthynas â chymunedau. Fodd bynnag, canfu'r adolygiad dystiolaeth gymysg ynghylch i ba raddau yr oedd y gweithgareddau hyn yn trosi i ganfyddiadau cymunedol cadarnhaol o'r heddlu, a mwy o ymddiriedaeth a hyder. Gan dynnu ar dystiolaeth o arolygon canfyddiad y cyhoedd a gynhaliwyd gan heddluoedd yng Nghymru, a thystiolaeth o astudiaethau achos o ddefnyddio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, canfu'r ymchwil ychydig iawn o dystiolaeth i awgrymu bod canfyddiadau cymunedol o'r heddlu wedi'u gwella drwy'r adnodd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol yng Nghymru:

> “Only in North Wales has there been positive impact over the implementation period, with negative changes across the rest of the country. Whether these changes can be attributed to extra CSOs is difficult to grasp. In some instances, the data suggest that the public differentiate between visibility of CSOs and warranted police officers, preferring the latter, and that there is some doubt about CSOs’ ability to perform ‘policing’ functions. Indeed, the CSOs themselves report some confusion amongst the public as to the purpose of their role and available powers, which may impact upon confidence. The negative trajectory in aggregate trust and confidence trends is likely associated with similar, broader trends across England and Wales that, by implication, the additional CSOs have not been sufficient to reverse.” (Lowes et al, 2015: 68)

Fel y nododd Lowes et al, nid yw'r canfyddiad hwn yn awgrymu nad yw cyllid Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi cael unrhyw effaith, nac effaith negyddol, ar ganfyddiadau y cyhoedd ond yn hytrach newidiadau ehangach yng nghyd-destun plismona,

ac yn fwy eang, gallai fod yn cael effaith fwy a allai fod yn cuddio cyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn y maes hwn.

Yn fwy cyffredinol, mae'r dystiolaeth sy'n seiliedig ar gyfraniad Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu at ymgysylltu â'r gymuned yn dameidiog gyda phrinder ymchwil academaidd a pholisi fel y nodwyd gan Sutherland (2014). Yn adolygiad Sutherland o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn Swydd Gaergrawnt, awgrymodd ymatebion y cyhoedd i arolwg eu bod yn cefnogi ac yn fodlon gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'u bod yn gwerthfawrogi eu hygyrchedd a'u cyfeillgarwch. Ar ben hynny, canfu'r adolygiad fod partneriaid yn ystyried Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i ddarparu presenoldeb gweladwy cyson mewn cymunedau ac yn gallu adeiladu perthynas â thrigolion lleol a allai helpu i gasglu gwybodaeth leol. Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod uwch swyddogion yr heddlu yn gwerthfawrogi agweddau traddodiadol rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, yn enwedig ymgysylltiad cymunedol, a oedd yn cael ei ystyried i effeithio'n sylweddol ar foddhad y cyhoedd. Codwyd pryder mewn rhai chwarteri o symudiad tuag at ddefnyddio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel swyddogion heddlu cynorthwyol. Cafodd gwerth Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o ran hybu cydlyniant cymunedol trwy eu gwaith hefyd ei amlygu (Sutherland, 2014: 37).

Yn 2006, cynhaliwyd gwerthusiad gan y Swyddfa Gartref o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ddaeth i'r casgliad bod y Swyddogion hyn yn cynnig nifer o fuddion o ran mwy o weledodd o fewn cymunedau lleol, canfyddiadau eu bod yn fwy agored a hygyrch na swyddogion yr heddlu, agweddau cadarnhaol tuag at ymgysylltu gyda phobl ifanc, a'u bod yn ymgysylltu mwy gyda chymunedau lleol. Fodd bynnag, canfu'r gwerthusiad hefyd rywfaint o ddryswch ymysg aelodau'r cyhoedd ynghylch rolau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ac er eu bod yn gwerthfawrogi rolau'r Swyddogion Cymorth Cymunedol, roeddent yn eu hystyried yn llai gwerthfawr na swyddogion heddlu llawn (Cooper et al, 2006: 40).

Canfu adolygiad Casey 2008 (Casey, 2008) fod aelodau o'r cyhoedd a oedd wedi ymgysylltu â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn tueddu i fod yn gadarnhaol am eu rôl, ac roedd y prif ffactorau a nodwyd gan bobl yn cynnwys gweledodd yn y gymuned, sicrwydd, hygyrchedd, datrys problemau a siarad gyda phobl ifanc, yn ogystal â gweithredu fel ataliad a gostwng lefelau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (a drafodir maes o law).

O fewn y llenyddiaeth ceir tensiwn rheolaidd ynghylch canfyddiadau'r cyhoedd o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'r pwerau sydd ar gael iddynt. Canfu adroddiad Casey 2008 fod y bobl sydd â phryderon ynghylch Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn aml yn cyfeirio at eu diffyg pwerau, ac yn dadlau bod cefnogaeth i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gael pwerau cryfach. Yn yr un modd, canfu Oldfield, er bod canfyddiadau bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn darparu ymdeimlad o sicrwydd, roedd mwyafrif y cyhoedd yn dal i ddweud bod swyddogion yr heddlu'n darparu lefel uwch o sicrwydd ac felly byddai'n well ganddynt weld swyddogion yr heddlu ar batrôl yn hytrach na Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (2021: 29). Cyfeirir at hyn hefyd yn adolygiad Llywodraeth Cymru yn 2015 sy'n nodi bod mwy o bresenoldeb ar y stryd mewn trefi, sy'n cael ei werthfawrogi gan y cyhoedd, ond ceir tystiolaeth sy'n awgrymu nad yw llawer yn teimlo'n gwbl hyderus yng ngallu a phwerau

Swyddogion Cymorth Cymunedol i ddelio gyda llawer o'r materion y maent yn debygol o'u hwynebu (2015: 69).

I'r gwrthwyneb, roedd Grieg-Midlane yn dadlau y gall pwerau cyfyngedig Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gael eu hystyried yn gryfderau os mae cael eu hystyried yn llai awdurdodol neu fygythiol gan adrannau penodol o'r cyhoedd yn rhoi gwell mynediad iddynt at wybodaeth yn y gymuned (2014: 11). Yn yr un modd, mae O'Neil (2014a) yn dadlau mai un o fuddion sylweddol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yw eu gallu i fagu ymddiriedaeth gyda chymunedau trwy ymgysylltiad ehangach ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol, a bod y ffaith nad 'ydynt yn gallu defnyddio grym sylweddol na'r gallu i arestio yn gryfder yn yr achos hwn, gan ei fod yn ei wneud yn ofynnol iddynt weithredu fel trafodwyr ac yn lleihau'r bygythiad, gan fagu ymddiriedaeth' (2014a: 12).

Cynhaliodd O'Neill (2014b) arsylwadau a chyfweliadau gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a swyddogion heddlu ar draws dau heddlu yng ngogledd Lloegr a chanfu y byddai gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sydd wedi gweithio o fewn eu cymunedau dros gyfnod estynedig ymdeimlad da o'r problemau presennol, ac y byddai pobl yn ymddiried ynddynt i gynnal ymyriadau yn y cymunedau lleol, a allai sicrhau mwy o ymgysylltiad gyda phobl leol wrth gyflawni prosiectau cymunedol. Fodd bynnag, mae O'Neill yn ei gwneud yn glir, er mwyn magu'r profiad hwn a meithrin ymddiriedaeth, mae'n hanfodol bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael digon o hyfforddiant parhaus i ddeall sut mae gwaith ymgysylltu da yn edrych. Byddai cyflawni hyn yn gofyn am flaenoriaethu swyddogaethau sy'n canolbwyntio ar y gymuned yng ngwaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel patrolau troed, datrys problemau, a gweithio gyda phobl ifanc ac ysgolion, yn enwedig mewn ardaloedd trefol a dosbarth gweithiol, ac osgoi cael eu tynnu i wneud dyletswyddau eraill lle bo'n bosibl gan y gall hyn niweidio ymdrechion adeiladu cyfalaf cymdeithasol y swyddogion hyn.

Mae Longstaff et. al. (2015) yn ysgrifennu bod staff sy'n wynebu'r gymuned yn allweddol ar gyfer ymgysylltiad effeithiol gyda chymunedau ac wrth annog pobl i gamu ymlaen gyda gwybodaeth i helpu i gadw eu cymdogaethau eu hunain yn ddiogel, trwy gyswllt wyneb yn wyneb gyda swyddogion a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu y maent yn eu hadnabod ac yn gallu ymddiried ynddynt. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sydd â gwybodaeth da am eu hardal yn allweddol wrth gynyddu ymgysylltiad a gwella cyfreithlondeb gyda'r cyhoedd, yn enwedig mewn ardaloedd gyda chymunedau amrywiol lle gallant feithrin ymddiriedaeth a helpu i ddatrys problemau o fewn cymdogaethau.

Mae'r ffocws hwn ar ymgysylltiad cymunedol a gwelededd fel galluogwr ar gyfer ymarfer effeithiol yn cael ei adleisio gan y coleg plismona (Coleg Plismona, 2018) a gynhyrchodd adroddiad yn dilyn asesiad tystiolaeth gyflym yn archwilio plismona cymdogaeth effeithiol. Roedd canfyddiadau'r adroddiad yn dangos tystiolaeth fod patrolau troed wedi'u targedu ynghyd ag ymgysylltiad â'r gymuned, pan fyddant yn cael eu gweithredu ar y cyd â datrys problemau, yn cynyddu teimladau o ddiogelwch, ac yn gwella ymddiriedaeth a chanfyddiad y cyhoedd o blismona o fewn cymunedau, yn ogystal â lleihau erledigaeth ac anrhefn troseddol. Fodd bynnag, canfu'r adroddiad y byddai cynnal patrolau troed heb ymgysylltu â'r gymuned neu'r agwedd datrys problemau yn annhebygol o gynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd yn yr heddlu.

Gall rhwystrau i ymgysylltu cymunedol effeithiol ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fod yn sefydliadol neu'n amgylcheddol. Nododd Lister, Adams a Phillips (2015) bum rhwystr y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn eu hwynebu wrth ymgysylltu â'r gymuned. Y broblem fwyaf a nodwyd ganddynt oedd problemau'n ymwneud â chael eu tynnu i wneud dyletswyddau eraill, a oedd yn lleihau'r amser sydd ar gael i staff plismona'r gymdogaeth ar gyfer ymgysylltu a magu perthnasoedd lleol o ganlyniad i flaenoriaethu'r galw, ond hefyd yn golygu tarfu ar weithgareddau cymunedol a oedd wedi'u cynllunio ymlaen llaw. Nododd yr awduron fod staff yn teimlo cynnydd sylweddol mewn dyletswyddau yn dilyn toriadau cyllidebol diweddar, a oedd wedi effeithio ar adnoddau. Roedd newidiadau byr rybudd i batrymau gweithio a sifftiau o ganlyniad i gynnydd sydyn yn y galw mewn ardaloedd eraill yn gyfrifol am dynnu staff o'u hardaloedd arferol, gan olygu llai o gyfleoedd i ymgysylltu'n ystyrlon gyda'r cymunedau hynny a sicrhau presenoldeb gweledol, neu fod oddi ar ddyletswydd yn ystod adegau o angen cymunedol. Nodwyd diffyg system berfformiad addas hefyd, un a oedd yn gallu cydnabod a mesur effeithiolrwydd ymgysylltu cymunedol ar blismona ehangach yn effeithiol. Nododd yr awduron hefyd yr anhawster sy'n wynebu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a staff yr heddlu i gysoni manteision ymgysylltu â'r cyhoedd (megis casglu gwybodaeth) wrth ddelio â throseddu, gyda blaenoriaethau gorfodi'r gyfraith. Er bod ymgysylltu â'r gymuned yn ddefnyddiol mewn gweithgareddau fel casglu cudd-wybodaeth, gallai defnyddio'r wybodaeth honno wrth ddelio â throseddu danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Er ei fod yn ehangach na Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, mae'n werth nodi'n gryno, fel yr uchod, rôl bwysig Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o ran plismona cymdogaeth, ac fel arwydd o gefnogaeth barhaus i blismona cymdogaeth. Fel y cyfryw, dylid cofio bod sylfaen dystiolaeth ehangach ynghylch cyfraniadau plismona cymdogaeth fel dull ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned, ymddiriedaeth, hyder a chanfyddiadau o gyfreithlondeb yr heddlu. Er enghraifft, yr adolygiad o dystiolaeth sy'n ymwneud â phlismona cymunedol gan Henry a Mackenzie (2009) ac adolygiad coleg plismona o blismona cymdogaeth (Colover a Quinton, 2018). Er y gallai canfyddiadau o'r fath fod yn berthnasol i rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wrth gefnogi plismona cymdogaeth, nid oedd o fewn cwmpas i'r gwaith hwn adolygu'r dystiolaeth sy'n ymwneud â phlismona cymdogaeth.

## 3.12. Gwelededd, canfyddiadau o ddiogelwch a sicrwydd

Fel y nodwyd yn gynharach, un o'r prif ffactorau a arweiniodd at gyflwyno Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'u rôl wrth gefnogi plismona cymdogaeth oedd y buddion y byddent yn eu cyflwyno o ran gwelededd, sicrwydd a chanfyddiadau o ddiogelwch mewn cymunedau lleol. Fel gyda meysydd cyfraniad eraill, mae'r dystiolaeth mewn llenyddiaeth a gyhoeddwyd ar gyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu tuag at sicrwydd a diogelwch yn brin.

Mewn adolygiad o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn Swydd Gaergrawnt, canfu arolwg o drigolion fod y sylwadau cadarnhaol a grybwyllwyd amlaf am Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ymwneud â'u gwelededd a bod mwyafrif yr ymatebwyr yn rhoi hyn fel rheswm dros gefnogi'r defnydd o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Canfu'r adolygiad hefyd fod rhanddeiliaid partner yn gefnogol i rôl Swyddogion Cymorth

Cymunedol yr Heddlu gan adrodd bod pob cyfweliad gydag asiantaethau partner yn cadarnhau bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n parhau i ddarparu presenoldeb sy'n tawelu'r gymuned (Sutherland, 2014: 35).

Daeth gwerthusiad 2006 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i'r casgliad fod mwyafrif helaeth Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn adrodd eu bod wedi cael effaith gadarnhaol ar sicrwydd y cyhoedd, a bod mewnwelediadau ansoddol gyda phreswylwyr a busnesau yn awgrymu bod cynnydd mewn teimladau o ddiogelwch lle roedd presenoldeb Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn amlwg. Fodd bynnag, adroddodd y gwerthusiad fod tystiolaeth o'r gwerthusiad yn brin oherwydd cyflwyniad cymharol ddiweddar Swyddogion Cymorth Cymunedol yn rhai o'r ardaloedd (Cooper et al., 2006: 39).

Yn yr un modd, canfu adolygiad 2015 o swyddogion cymorth cymunedol yng Nghymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru fod y berthynas rhwng gwelededd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a chanfyddiadau o ddiogelwch yn anodd ei dehongli:

> 'Whilst the Beaufort Omnibus survey does provide limited evidence that people feel safer as a result of regularly seeing CSOs on foot patrol, this one measure alone cannot capture the complexities of how communities construct their sense of security. For example, whilst the evidence from combined data sources shows regular CSO visibility has generally increased over the implementation period (except in DPP), for a significant proportion of the public, high visibility alone makes no difference to perceptions of safety. The implication is that other aspects of community engagement and problem solving are also important' (Innes et al, 2015: 68)

Aiff y gwerthusiad yn ei flaen i nodi er bod tystiolaeth i awgrymu bod canfyddiad o fwy o bresenoldeb gan yr heddlu yn ystod y cyfnod lle cafodd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu eu hariannu yng Nghymru, roedd tystiolaeth o effaith ddosio lle gallai lefelau gormodol o bresenoldeb yr heddlu fod yr un mor niweidiol â phrinder gwelededd, a gallai hynny fod yn wrthgynhyrchiol o ran lefelau sicrwydd. Mae canfyddiadau o'r fath yn cyd-fynd â phryderon ehangach ynghylch plismona cymunedol a amlygwyd gan Henry a Mackenzie, lle'r oeddent yn tynnu sylw wrth drafod ceisiadau am blismona mwy gweledol bod rhai sylwebwyr wedi awgrymu na fyddai ildio i'r ceisiadau hyn o reidrwydd yn tawelu meddwl pobl yn ymarferol, ond yn hytrach yn pwysleisio'r teimladau o fod yn anniogel trwy dynnu sylw at natur broblemus bosib y gymdogaeth dan sylw (2009: 39). Mae'r awduron yn nodi mai nad presenoldeb plismona gweledol yn unig sy'n hybu sicrwydd a chanfyddiad o ddiogelwch, ond yn hytrach, defnyddio plismona gweledol iawn mewn cymdogaethau a lleoedd mewn ffordd sy'n ymgysylltu gyda'r problemau cymdeithasol-strwythurol sy'n sbarduno problemau troseddau ac anrhefn lleol (2009: 39-40).

Mae canfyddiadau o'r fath yn gyson â gwaith mwy diweddar gan Oldfield (2021) mewn perthynas â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn Swydd Stafford. Fel rhan o'r gwaith hwn, canfuwyd bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael effaith gadarnhaol ymylol ar ganfyddiadau preswylwyr o ddiogelwch ac wrth ddarparu sicrwydd. Yn unol â'r uchod, canfu'r ymchwil hefyd fod effeithiau cadarnhaol o'r fath yn ddibynnol ar benderfyniadau ynghylch defnyddio'r swyddogion: mae'r data'n pwysleisio mai'r unig ffordd

y gall Swyddogion Cymorth Cymunedol ddarparu'r cyfraniadau cadarnhaol hyn yw os byddant yn cael eu defnyddio'n briodol o fewn eu rôl a'u pwerau craidd. Roedd ymatebion ar draws pob grŵp o gyfranogwyr yn amlygu nad yw hyn bob amser yn wir yn Swydd Stafford, sydd yn ei dro yn lleihau'r ymdeimlad o ddiogelwch a sicrwydd a deimlir gan y cyhoedd (Oldfield 2021: 57).

Yn ogystal â'r ystyriaethau hyn ynghylch y berthynas rhwng gwelededd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a chyfraniadau at ganfyddiadau o ddiogelwch a sicrwydd, mae tystiolaeth yn y llenyddiaeth i awgrymu y gallai gwelededd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gael ei gyfyngu mewn sawl ffordd. Yn fwyaf nodedig, ceir dadleuon a nodwyd yn gynharach yn ymwneud â chyflawni dyletswyddau eraill, a'r ffordd y mae penderfyniadau i ddefnyddio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn rolau eraill heblaw am eu swyddogaeth yn y gymdogaeth yn gallu eu rhwystro rhag gallu darparu presenoldeb plismona gweladwy. Mae hyn yn amlwg ar draws nifer o ffynonellau. Tynnodd Casey (2008) sylw at enghreifftiau o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu tynnu oddi ar batrolau troed er mwyn cyflawni tasgau eraill megis gofalu am ddesgiau derbynfa. Roedd arolwg UNISON (2016) o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cynnwys ymatebion amrywiol am natur newidiol gwaith y Swyddogion hyn gyda rhai'n nodi bod llai o amser yn cael ei dreulio ar batrolau gwelededd uchel.

Yn ogystal, ceir rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig sy'n awgrymu bod penderfyniadau mwy pragmatig eraill yn gallu effeithio ar welededd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Fel y mae Weston (2021) yn ei ddangos, mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn draddodiadol wedi bod yn fwy tebygol o ddibynnu ar batrolau troed wrth gyflawni eu swyddogaethau, ond amlygwyd tystiolaeth o fwy a mwy o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn defnyddio cerbydau ar gyfer patrolau sy'n rhwystro hygyrchedd a gwelededd. Yn ogystal, mae Weston yn tynnu sylw at sut y gall newidiadau i lwybrau cerdded, neu ehangu ardaloedd patrôl hefyd effeithio ar welededd yr heddlu. Mae tystiolaeth debyg hefyd yn amlwg yng ngwaith Oldfield (2021) sy'n dangos bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, yn cael eu gofyn i wasanaethu ardaloedd mawr, sy'n golygu defnyddio cerbydau a chyfyngu ar welededd gan y cyhoedd. Mae materion tebyg yn ymwneud â natur cefn gwlad hefyd yn cael eu codi gan Higgins (2018) lle roedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n gwasanaethu mwy na 50 pentref, gan gyflwyno problemau o ran hybu cynefindra.

## 3.13. Lleihau troseddu ac anhrefn

Fel gyda meysydd blaenorol, roedd tystiolaeth gadarn yn ymwneud ag effaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar drosedd ac anhrefn yn brin ac yn anghyson, ac mae'n anodd gwneud unrhyw sylwadau pendant ynghylch a yw Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn effeithiol fel ffordd o leihau ac atal troseddu ac anhrefn. Mae'n bwysig nodi, wrth ystyried cyfraniadau at gyfraddau troseddu ac anhrefn, byddai'r cwmpas ar gyfer cyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn canolbwyntio i raddau helaeth ar droseddau ac anhrefn lefel isel.

Canfu gwerthusiad y Swyddfa Gartref yn 2006, yn seiliedig ar ddata troseddau a gofnodwyd yn yr ardaloedd astudiaeth achos nad oedd modd dirnad unrhyw wahaniaethau parhaus mewn tueddiadau yn nifer y troseddau rhwng yr ardaloedd gyda Swyddogion Cymorth

Cymunedol a hebddynt ar ôl eu cyflwyno (Cooper et al., 2006: 28). Roedd y canfyddiadau hyn yn seiliedig ar ddigwyddiadau a ystyriwyd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan batrolau gweladwy fel ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau lefel isel gan gynnwys difrod troseddol, troseddau cerbydau, trais yn erbyn y person, byrgleriaeth, a dwyn a lladrad.

Yn yr un modd, canfu Innes et al. fel rhan o'r gwerthusiad o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru (Innes et al., 2015) fod asesu'r effaith ar lefelau'r troseddau a gofnodwyd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn anodd. Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfraddau troseddu yn parhau i ostwng yn ystod cyfnod gweithredu cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac nad oedd unrhyw wahaniaethau amlwg rhwng Lloegr (lle nad oedd buddsoddiad ychwanegol mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu) a Chymru yn y duedd gyffredinol o droseddu. O ganlyniad, maent yn dadlau nad oes modd gweld unrhyw effaith gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar gyfraddau troseddu yng Nghymru, ond maent hefyd yn amlygu bod asesu newidiadau yn y gyfradd droseddu yn gyffredinol yn arf di-awch ar gyfer mesur canlyniadau. Yr hyn a welodd yr adolygiad fodd bynnag oedd er nad yw’n bosibl pennu unrhyw effeithiau amlwg ar lefelau ymddygiad gwrthgymdeithasol, roedd yn amlwg bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cymryd yr awenau fwy a mwy wrth ymateb i anrhefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a galwadau nad ydynt ar gyfer troseddau. Daeth yr adolygiad i'r casgliad y gellid dehongli hyn mewn modd cadarnhaol a negyddol: Ar y naill llaw, mae’n rhyddhau amser swyddogion yr heddlu. Ar y llaw arall, mae’n cyfyngu ar allu’r Swyddog Cymorth Cymunedol i gyflawni gwaith ymgysylltu i ryw raddau (2015: 71).

Mae tystiolaeth arall a nodwyd yn cynnwys ymdrechion i asesu effaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gynnar yn y 2000au sy'n cael eu crynhoi gan Oldfield (2021). Yn 2002 ymgymerodd Crawford a Lister (a ddyfynnwyd yn Oldfield, 2021) â gwaith a oedd yn honni bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu’n cael effaith sylweddol ar leihau troseddu. Fodd bynnag, fel y mae Oldfield yn ei nodi, nid oedd y gwaith hwn yn cynnwys unrhyw safleoedd cymhariaeth nag ymdrechion i ystyried ffactorau eraill. Gan adeiladu ar hyn, mae Oldfield yn tynnu sylw at waith Harrigton et al. yn 2005 a oedd yn cynnwys safleoedd cymhariaeth a chanfu hefyd fod presenoldeb Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gysylltiedig â gostyngiad mewn troseddu. Yn y ddau achos, fodd bynnag, mae Oldfield yn nodi bod yr ymyriadau hyn gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn yn cynnwys defnyddio’r Swyddogion hyn mewn mannau troseddu aml, gan gysylltu â meddylfryd y gallai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gael effaith os cânt eu defnyddio'n effeithiol.

Wrth ystyried cyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu pan fyddant yn cael eu defnyddio fel rhan o ddull ‘mannau troseddu aml’ yn benodol, ceir rhywfaint o dystiolaeth, ond fel gyda’r dystiolaeth ehangach, mae’n anghyson. Defnyddiodd Ariel et al. (2016) ddull a oedd yn cynnwys 72 o fannau troseddu aml wedi'u gwahanu ar hap yn 34 o safleoedd triniaeth a 38 o safleoedd rheoli, lle roedd triniaeth yn cynnwys mwy o batrolau troed gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Daethant i’r casgliad bod safleoedd triniaeth yn dangos lefelau is o droseddu a gostyngiad yn nifer y galwadau brys, yn ogystal â gostyngiad mewn ardaloedd cyfagos, gan awgrymu lledaeniad o fuddion yn hytrach na dadleoli troseddau. Honnwyd hefyd bod canlyniadau'n awgrymu y gallai mwy o ymweliadau

Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar wahân arwain at fwy o fanteision o ran lleihau troseddu nag ymweliadau am gyfnodau hwy.

I'r gwrthwyneb, canfu ymchwil a gyhoeddwyd gan y coleg plismona (Coleg Plismona, 2024) nad oedd defnyddio swyddog cymorth cymunedol yr heddlu mewn 'mannau troseddu aml micro' yn Sheffield yn cael unrhyw effaith ar leihau troseddu. Roedd yr astudiaeth yn cynnwys 8 'man troseddu aml micro' (ardal heb fod yn fwy na 50 metr wrth 50 metr), a gafodd eu paru'n bedwar pâr yn ôl eu lefelau troseddau a digwyddiadau, gydag amodau triniaeth a rheoli. Canfu'r astudiaeth fod yr ardaloedd gyda thriniaeth yn profi lefelau uwch o droseddu a digwyddiadau o'i gymharu â'r ardaloedd rheoli. Wrth geisio esbonio'r canlyniad hwn, roedd yr awduron yn honni bod yr union resymau y tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth, ond gallai fod o ganlyniad i ddiffyg effaith ataliol canfyddedig Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, neu o ganlyniad i fwy o hyder ymysg y cyhoedd o ran adrodd am ddigwyddiadau i'r heddlu.

Gwerthusiad o'r rhaglen ymyrraeth gynnar, Ystyried y Teulu, sy'n gynllun ymyrraeth gynnar lle mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n gweithio gyda theuluoedd bregus sydd o dan y trothwy i dderbyn cymorth gan y cyngor neu'r gwasanaethau cymdeithasol ond sy'n dal i fod angen cymorth, a'i nod yw atal troseddau rhag gwaethygu. Roedd y gwerthusiad yn dangos gostyngiad mewn trais domestig, troseddau a throseddau ieuenctid ar gyfer teuluoedd, ond roedd hyn yn seiliedig ar asesiad cyn ac ar ôl yr ymyrraeth ac nid oedd unrhyw gymhariaeth gyda grŵp rheoli, felly mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r canfyddiadau. Er bod tystiolaeth o ostyngiad mewn lefelau troseddu, nodwyd problemau gyda'r broses, gan gynnwys p'un a yw'n briodol i'r heddlu gymryd yr awenau gyda'r rhaglen, a p'un a yw'r Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn derbyn hyfforddiant priodol fel rhan o'r gwaith. (Bradbury-Jones et al., 2021)

## 3.14. Recriwtio ac amrywiaeth

Rhesymeg arall dros gyflwyno Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a nodwyd yn y llenyddiaeth oedd y potensial i helpu i amrywio gweithlu'r heddlu ac i helpu heddluoedd i recriwtio staff sy'n fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Fel gyda chyfraniadau posibl eraill Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, mae'r sylfaen dystiolaeth bresennol yn amhendant.

Yn y cyfnod cynnar ar ôl eu cyflwyno roedd tystiolaeth gadarnhaol bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn denu ystod fwy amrywiol o unigolion, a bod hyn yn helpu i sicrhau bod staff plismona cymunedol yn adlewyrchu'r cymunedau yr oeddent yn gweithredu ynddynt yn well. Daeth gwerthusiad 2005 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i'r casgliad bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yn fwy amrywiol yn benodol o ran ethnigrwydd na grwpiau eraill yn y gwasanaethau heddlu. Roedd cyfran uwch o Swyddogion Cymorth Cymunedol (15%) o gefndir lleiafrifol ethnig nag oedd staff eraill yr heddlu (6%), swyddogion heddlu (4%) neu recriwtiaid newydd (6%). (Cooper et al., 2006: 44). Canfu'r gwerthusiad hefyd fod cyfran uwch o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn fenywod o'i gymharu â swyddogion heddlu, a hefyd bod y rôl yn denu dosbarthiad mwy cyfartal o oedrannau, gan gynnwys cyfrannau mwy o'r rhai dan 25 a dros 55. Wrth ystyried pam bod pobl yn ymuno fel Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, roedd swyddogion hŷn a swyddogion benywaidd yn nodi bod diwylliant gweithio

Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn fwy deniadol na diwylliant swyddogion cyffredin. Roedd tua 40 y cant o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi ymuno am eu bod yn ystyried y rôl fel pwynt mynediad i fod yn swyddog heddlu, canfyddiad a oedd yn fwy tebygol o fod yn berthnasol i ddynion a'r rhai dros 35 mlwydd oed (Cooper et al., 2006).

Yn yr un modd, wrth ystyried cyflwyniad Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel rhan o'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitan, roedd Johnson (2006) yn dadlau bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gydrannau pwysig yn y nod o amrywio'r heddlu. Yn y lle cyntaf, roeddent yn ychwanegu'n uniongyrchol at amrywiaeth yr heddlu yn ei gyfanrwydd, ac yn ail, trwy'r broses o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n ymgeisio i fod yn swyddogion cyffredin, bydd yn cynorthwyo i amrywio swyddogion heddlu yn y tymor hwy. Wrth ystyried tystiolaeth o hyn, canfu Johnson fod y broses o ddethol a recriwtio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi profi'n llwyddiannus wrth ddenu grwpiau sydd ar hyn o bryd wedi'u tangynrychioli o fewn y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan (Johnson, 2005: 13). Fodd bynnag, canfu Johnson hefyd fod nifer o broblemau gyda'r broses recriwtio, gan gynnwys gweithredu ar frys, diffyg hyfforddiant a chefnogaeth, a bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o gefndiroedd ethnig lleiafrifol dan fwy o anfantais na'u cymheiriaid gwyn yn hyn o beth (Johnson, 2006: 15).

Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â chanfyddiadau dadansoddiad Cunningham a Wagstaff (2006) o ddata gweithlu'r heddlu yn y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan. Fe wnaethant ddarganfod bod mwy o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn categorïau oedran hŷn ac iau o'i gymharu â swyddogion heddlu a hefyd cyfran uwch o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig, ond ni ddarganfuwyd fawr o dystiolaeth o wahaniaethau o ran rhyw. O ran cymhellion i ddod yn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, fel Cooper et al, daeth Cunningham a Wagstaff i'r casgliad bod cymhellion yn amrywio. Roedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n fenywaidd, yn hŷn ac o gefndiroedd Du Affricanaidd yn aml yn adrodd eu bod yn gwerthfawrogi agwedd cymunedol y rôl. I'r gwrthwyneb roedd eraill wedi'u hysgogi i ymuno fel carreg gamu i ddod yn swyddog heddlu ac fel gyda Cooper et al, roedd hyn yn arbennig o wir yn achos swyddogion gwrywaidd ac iau. Gan adleisio dadleuon Johnsons, canfu Cunningham a Wagstaff dystiolaeth hefyd bod y gronfa o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n gadael y rôl i ddod yn swyddogion heddlu yn fwy amrywiol nag ar gyfer llwybrau recriwtio swyddogion heddlu eraill.

Mae'n werth nodi bod y dystiolaeth uchod yn ymwneud i raddau helaeth ag amser yn fuan ar ôl cyflwyno Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ac mae tystiolaeth fwy diweddar yn awgrymu y gallai cyfnodau o gyni a thynhau prosesau recriwtio'r heddlu fod wedi effeithio ar recriwtio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Yn gyntaf, mae Oldfield yn nodi bod mwy o bwyslais wedi cael ei roi yn ddiweddar ar Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu , gan nodi mai un o'r canlyniadau anfwriadol yw denu mwy o ymgeiswyr iau gyda dyheadau gyrfa uchelgeisiol, gan danseilio'r ethos o ymrwymiad hirdymor (Oldfield, 2021: 11). Mae canfyddiad o'r fath yn cael ei adleisio gan O'Neill (2014b) lle mae'n nodi mai un o'r cymhellion cyffredin cynyddol ar gyfer dod yn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu oedd unigolion iau gyda dyheadau o ymuno â'r heddlu'n cael eu cynghori i ddod yn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu er mwyn magu profiad. Yn wir, fel y nodwyd yn

flaenorol, disgrifiodd O'Neill et al. fod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n cael eu gweld fel hyfforddiant ar gyfer darpar swyddogion heddlu (2022: 11).

Nid yw'r mater o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu hystyried fel carreg gamu i ddod yn swyddog heddlu o reidrwydd yn broblem os yw'r rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn parhau i ddenu criw mwy amrywiol o ymgeiswyr, gan alluogi lluoedd i gynyddu amrywiaeth eu gweithlu o swyddogion heddlu fel a welwyd ar ddechrau cyfnod eu cyflwyniad (Johnson, 2005: Cunnigham a Wagstaff, 2006). Fodd bynnag, ceir rhywfaint o dystiolaeth sy'n awgrymu bod gosod rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel llwybr tuag at ddod yn swyddog heddlu yn effeithio ar amrywiaeth y gronfa ymgeiswyr. Mae hyn yn amlwg yn adolygiad Llywodraeth Cymru o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn 2015 sy'n dadlau bod y ffaith bod rôl Swyddog Cymorth Cymunedol wedi cael ei hyrwyddo fwy a mwy gan luoedd fel carreg gamu i ymuno â gwasanaeth yr heddlu yn hytrach na rôl unigryw ynddi'i hun, mae hyn wedi cael effaith ar y math o unigolion a fu'n ymgeisio am y swyddi Llywodraeth Cymru (Innes et al. 2015: 72).

Mae O'Neill hefyd yn nodi bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n hŷn yn dueddol o fod â lefel uwch o gyfalaf cymdeithasol a dynol o ganlyniad i brofiadau bywyd, a bod y pwyslais parhaus ar rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel carreg gamu'n ystumio gweithlu'r Swyddogion hyn tuag at ymgeiswyr iau gyda llai o brofiad bywyd i'w cefnogi wrth wynebu pobl neu sefyllfaoedd heriol (2014b: 24). Yn ogystal, ac fel y trafodwyd yn gynharach, dadleuwyd hefyd bod fframio rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn y modd hwn fel llwybr i fagu profiad cyn dod yn swyddog heddlu, hefyd yn annog Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i fabwysiadu rôl sy'n canolbwyntio ar gymorth yr heddlu yn ogystal ag annog trosiant o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n lleihau ymdrechion i adeiladu ymgysylltiad cymunedol hirdymor (O'Neill, 2014b; O'Neill et al. 2022, ac Innes et al. 2015).

O ran tystiolaeth fwy diweddar o amrywiaeth y gweithlu, mae adroddiad gan Hales (2020) wedi canfod bod lefelau amrywiaeth o ymysg Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi bod yn gostwng ar lefel genedlaethol. Mae Hale yn dadlau y dylid trin tuedd o'r fath yn ofalus a gall fod yn adlewyrchu toriadau sylweddol i'r gweithlu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan a oedd yn un o brif sbardunau amrywiaeth o fewn niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Cafwyd hefyd rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig yn awgrymu mai un o'r problemau'n ymwneud â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yw diffyg cyfleoedd i wneud cynnydd, gan mai'r unig lwybr cynnydd go iawn yw dod yn swyddog heddlu (Cooper et al, 2006, Oldfield, 2021; O'Neill, 2014b). Mae O'Neill (2014b) yn dadlau y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i ddatblygiad proffesiynol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i annog mwy o'r Swyddogion hyn i aros, er mwyn osgoi colli cyfalaf cymdeithasol a goblygiadau posibl ar gyfer ymdrechion i feithrin a chynnal cysylltiadau cymunedol. Nodir hyn yn yr un modd yng ngwerthusiad 2006 (Cooper et al, 2006) a gwerthusiad 2015 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru (Lowes et al, 2015).

# 4. Grwpiau ffocws gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Swyddogion Plismona Cymdogaeth

## 4.1. Cyflwyniad a rhesymeg

Ac eithrio gwerthusiad a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015, roedd canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth, er eu bod yn berthnasol i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gyffredinol, yn brin o naratif am Swyddogion o’r fath yng Nghymru. Roedd angen casglu data cynradd er mwyn deall profiadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o fewn heddluoedd Cymru. Byddai gwneud hynny yn ychwanegu at y llenyddiaeth bresennol sy'n ymwneud â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac yn ychwanegu mewnwelediadau angenrheidiol ar sut mae canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth yn ymwneud â thirwedd plismona Cymru. Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adolygiad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol yng Nghymru, ac felly efallai y bydd gwahanol agweddau a diwylliant sefydliadol ynglŷn â'r defnydd o rolau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu na ellir ymdrin â nhw yn y llenyddiaeth gyfredol.

Mae'n bwysig nodi bod y grwpiau ffocws hyn yn cynnwys wyth Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu ac wyth swyddog heddlu cymdogaeth, ac nad oeddent yn cynnwys prif swyddogion na staff plismona nad ydynt yn gymdogaeth a allai fod â chanfyddiadau neu farn wahanol am rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. O ganlyniad, roedd cwmpas y grwpiau ffocws eu hunain yn gyfyngedig, ac ni ddylid eu defnyddio i gyffredinoli rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ledled Cymru.

## 4.2. Canfyddiadau

### 4.2.1. Cymhellion i ddod yn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Roedd canfyddiadau’r adolygiad llenyddiaeth yn dangos bod cymhellion ar gyfer dod yn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu’n gallu effeithio ar agwedd y Swyddogion hyn tuag at eu gwaith, y math o brofiadau maen nhw’n gobeithio eu cael o’r rôl a’u dyheadau gyrfa. Gofynnwyd i'r ymatebwyr beth oeddent yn teimlo sy'n ysgogi pobl i ddod yn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Roedd yr ymatebion yn gyson i raddau helaeth ymhlith y ddau grŵp, gan gynnwys awydd i feithrin cysylltiadau cymunedol, canfyddiad o sefydlogrwydd y rôl, a'r potensial i ddod yn swyddog heddlu.

#### 4.2.1.1. Gwasanaethu Cymunedau

Roedd nifer o’r ymatebwyr yn gyflym i ymateb eu bod yn teimlo eu bod wedi’u cymell i ddod yn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu o ganlyniad i awydd cryf i wasanaethau eu cymunedau lleol. Nododd ymatebwyr bod y rhai sy’n meddu ar sgiliau cymdeithasol cryf ac sy’n mwynhau siarad gyda phobl a meithrin cysylltiadau cymdeithasol newydd yn enwedig yn cael eu denu i’r swydd gan eu bod yn ei ystyried yn ffordd o gael effaith gadarnhaol ar eu cymunedau lleol a bod o gymorth, yn enwedig i bobl fregus:

> "Mae rhai pobl yn dod yn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu am eu bod yn awyddus iawn i helpu pobl fregus. Rydych chi eisiau cael effaith gadarnhaol ar

eich cymuned. Rydych chi eisiau bod y math o berson sy'n gwneud gwahaniaeth." - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

"Fy ngyrfa i yw bod yn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, mae gweithio yn y gymuned yn bwysig iawn i mi. Ac rwy'n credu eich bod chi'n mynd ati gyda meddylfryd ychydig yn wahanol. Mae fel eich bod chi yma i aros. Felly, rydych chi'n meddwl, beth alla i ei wneud a fydd yn gwneud gwahaniaeth parhaol?" - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

#### 4.2.1.2. Dilyniant Gyrfa a Chadw Gweithwyr

Roedd defnyddio rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel llwybr amgen (neu "garreg gamu") i blismona yn thema allweddol mewn ymatebion. Anogwyd ymatebwyr i drafod a oedd y canfyddiad bod y rôl yn garreg gamu tuag at yrfa fel swyddog heddlu yn effeithio ar y math o ymgeiswyr ar gyfer y rôl, ac a oedd hyn yn amlwg yn agwedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gyrfa a'r rhai sy'n dymuno mynd ymlaen i fod yn swyddog heddlu. Yn unol â'r adolygiad llenyddiaeth, soniodd ymatebwyr fod y rhai sy'n ymuno gyda'r bwriad i ddod yn swyddog heddlu yn tueddu i fod yn bobl iau nad ydynt efallai wedi datblygu'r cyfalaf cymdeithasol a gyflwynwyd gan O'Neill (2014) fel rhan bwysig o waith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu:

"Ie, rwy'n credu ein bod wedi cyffwrdd â hyn yn gynharach gan fod llawer o'r genhedlaeth iau yn dod i'r swydd fel carreg gamu i'r heddlu. Efallai eu bod yn teimlo nad ydynt yn barod ar gyfer yr heddlu yn 18-19 mlwydd oed, felly maen nhw'n ei ddefnyddio fel carreg gamu, a dyna pam yr ydym ni'n gweld tipyn o drosiant gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yn dod yn Swyddogion Heddlu." - Swyddog Plismona'r Gymdogaeth.

Roedd ymatebion i'r dull hwn fel modd o recriwtio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn negyddol i raddau helaeth, gydag ymatebwyr yn teimlo bod hyn yn lleihau gwerth y rôl yn yr ystyr bod cymunedau'n colli allan ar Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu profiadol o ganlyniad i gyfradd trosiant y Swyddogion hyn i fod yn swyddogion heddlu. Mae'r cyfraddau trosiant uchel o ran Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i swyddogion heddlu yn cael ei nodi yn yr adolygiad llenyddiaeth, a gofynnwyd i ymatebwyr a oedd hyn wedi arwain at farn ehangach bod dod yn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael ei ystyried yn yrfa tymor byr. Rhannodd un ymatebydd, o fewn ei lu, bod symud ymlaen i rôl Cwnstabl Heddlu yn cael ei ystyried yn gam cynyddol yn dilyn cyfnod penodol o amser yn y rôl a phrofi eich hun i'r rhai sydd ar lefel uwch, yn hytrach nag ystyried Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn yrfa benodol ynddi'i hun.

Yn ôl ymatebwyr, mae'r dull recriwtio o ddefnyddio rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu i ddenu darpar swyddogion heddlu hefyd wedi effeithio ar y ffordd y mae eu gwaith o ddydd i ddydd yn cael ei wneud a sut maent yn gweithredu ar lefel gymunedol. Roedd ymatebwyr yn awgrymu y byddai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n gobeithio dod yn swyddogion heddlu yn fwy tebygol o anwybyddu agweddau'r rôl sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned, megis patrolau troed ac ymweliadau ysgolion, gan ffafrio swyddi "cyffrous" a "golau glas" a chynorthwyo cydweithwyr sy'n swyddogion heddlu.

Bu ymatebwyr trwy gydol y grwpiau ffocws yn trafod pwysigrwydd sgiliau cyfathrebu cryf ymysg Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Yn ogystal â bod yn hanfodol er mwyn

cyflawni tasgau o ddydd i ddydd a delio'n uniongyrchol â phobl o wahanol gefndiroedd, roedd ymatebwyr yn teimlo bod hyn hefyd yn bwysig gan eu bod yn aml yn gwneud gwaith a ellir cael ei gyflawni gan gydweithwyr sy'n swyddogion heddlu, megis galw heibio gyda dioddefwyr troseddu. Nodwyd mewn sawl ymateb bod recriwtio pobl ifanc neu'r rhai gyda diddordeb bod yn swyddogion heddlu yn unig yn golygu nad oedd y sgiliau rhyngbersonol hyn bob amser mor ddatblygedig ymysg Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu newydd.

Y tu hwnt i hyn, tynnodd ymatebwyr sylw at y materion sy'n ymwneud â chynnydd o fewn y rôl ei hun, o ran cymwysterau a chyflog, fel rheswm dros gyfraddau trosiant uchel, a gall hynny hefyd fod yn ffactor ym mhenderfyniad pobl i ymgeisio ar gyfer rolau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu:

> "rydych chi'n gwybod nad ydych yn mynd i fynd y tu hwnt i bwynt cyflog penodol, ac mae'n rhaid i chi ystyried hynny wrth wneud penderfyniadau am eich ffordd o fyw, ydw i'n gallu fforddio prynu tŷ gyda'r cyflog yma? Ydw i'n gallu fforddio cael plant gyda hwn? Felly rwy'n credu bod hynny'n bendant yn rhywbeth sy'n gwneud i bobl ailfeddwl am y rôl" - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu

> "mae'r gwahaniaeth rhwng cyflog uchaf Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu a chyflog uchaf Swyddog Heddlu gan ddibynnu ar hyd gwasanaeth yn enfawr. Felly, rwy'n credu bod hynny'n ffactor pwysig iawn, yn enwedig yr hyn yr ydym yn ei weld yma gan lawer o bobl sydd wedi ymuno'n ddiweddar ac wedi gadael. Mae'r arian yr ydych yn ei gael am yr hyn yr ydych yn ei wneud yn ffactor enfawr yn aml." - Cwnstabl yr Heddlu

### 4.2.2. Rôl a Chyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Gan gydnabod y rolau amrywiol y gall Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu eu darparu a nodwyd yn y llenyddiaeth, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddisgrifio'r gwaith y maent yn ei wneud fel rhan o'u rôl i helpu i ddeall sut mae'r rôl yn edrych yng Nghymru. Yn enwedig o ran Cymru, roedd yr ymateb yn casglu gwahanol heriau a wynebir gan y rhai sy'n gweithio mewn ardaloedd gyda nodweddion demograffig a daearyddol gwahanol, yn enwedig natur a gofynion gwahanol mewn cymunedau trefol a gwledig. Fel y disgwylir o'r adolygiad llenyddiaeth, nid oedd unrhyw enghraifft sefydlog y gellid ei roi o ddiwrnod gwaith "nodweddiadol" i Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, gan dynnu sylw at yr angen i gynnal hyblygrwydd a lefel uchel o ymreolaeth.

#### 4.2.2.1. Ymgysylltu â'r gymuned

Roedd Swyddogion Heddlu Cymdogaeth a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cytuno mai prif ddiben y rôl yw ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn enwedig trwy gynnal presenoldeb gweladwy yn eu cymuned. Ystyriwyd bod patrolau troed yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn, gan hefyd ei gwneud yn bosibl manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth leol a chasglu gwybodaeth trwy sgyrsiau ag aelodau o'r cyhoedd:

> "Mae'n ddelfrydol os ydych yn hoff o sgwrsio, yn enwedig wrth ddatblygu gwybodaeth. Os ydych chi'n mynd allan ac yn mwynhau sgwrsio, byddant yn dweud pethau wrthych chi nad ydych chi'n disgwyl iddyn nhw ei ddweud. A dyna

> le mae deallusrwydd yn bwysig. Ac mae hynny'n dod o gael sgwrs." - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

> "Roedd gan Gwnstabliaid Heddlu lawer iawn o wybodaeth leol ers talwm, ac mae hynny bellach wedi cael ei drosglwyddo i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gan ein bod ni i gyd yn gwybod beth sy'n digwydd i'r Cwnstabliaid." - Cwnstabl yr Heddlu.

> "Maen nhw'n gwneud yr hyn yr oedd swyddogion heddlu yn arfer ei wneud ers talwm, sef patrolio'r ardal, bod yn weladwy" - Cwnstabl yr Heddlu.

Roedd y gweithgareddau a gynhaliwyd tra ar batrôl ar droed yn amrywio gan ddibynnu ar leoliad y swyddog. Roedd un Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu a oedd yn gweithio mewn canol dinas yn nodi bod ei waith o ddydd i ddydd yn cynnwys diogelu yn bennaf, gan helpu pobl yn ei ardal gyda materion megis digartrefedd, dibyniaeth a chymorth iechyd meddwl, yn aml yn delio gyda'r un bobl yn rheolaidd. Yn yr achos hwn, roedd eu patrolau troed yn cynnwys cyfarfod â phobl hysbys yn yr ardal a chynnig cymorth ymarferol fel gwneud atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth iechyd meddwl neu hosteli. Yn ogystal â hyn, roedd bod mewn ardal gyda phoblogaeth ddwys yn golygu ei fod yn aml y cyntaf i gyrraedd safle neu ddigwyddiad ac yn darparu presenoldeb cyntaf yr heddlu i aelodau'r cyhoedd.

Roedd ymatebwyr sy'n gweithio mewn lluoedd sy'n cwmpasu ardaloedd mwy gwledig - fel Dyfed Powys a Gogledd Cymru - yn fwy tebygol o drafod yr angen am weledեdd wrth adeiladu perthnasoedd cryf o fewn y gymuned a sefydlu ymddiriedaeth yn yr heddlu, gan gynnig cymorth a chefnogaeth i bobl na fyddent fel arall yn cysylltu â'r heddlu yn uniongyrchol:

> "Yn amlwg, rydym ni'n gweld llawer o bobl fregus, ac rydw i'n clywed yn aml nad ydynt eisiau gwneud adroddiad ar y system 101. Does dim llawer o ymddiriedaeth, neu maen nhw'n methu â chysylltu. Maen nhw'n rhwystredig neu'n methu â gwneud ar-lein gan nad oes ganddynt gysylltiad â'r we. Maen nhw o'r oedran hwnnw, weithiau mae yna ddiffyg cysylltiad i'r we mewn cymunedau gwledig, pethau felly." - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Bu ymatebwyr hefyd yn trafod eu cyfranogiad mewn digwyddiadau cymunedol ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ac effaith y rhain ar yr ardaloedd maent yn eu cefnogi. Bu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn trafod pwysigrwydd ymweud ag ysgolion a grwpiau cymunedol er mwyn magu perthynas gyda phlant a phobl ifanc, a sut mae'r perthnasoedd hyn yn gallu bod yn allweddol wrth gasglu gwybodaeth a hyd yn oed helpu i ddatrys materion yr heddlu:

> "rydych chi'n cerdded i mewn i glwb ieuenctid lleol fel Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu a bydd yr holl blant yn estyn eu ffonau a byddant yn dod o hyd i leoliad y person ifanc hwnnw, gan eich bod wedi bod yno cyhyd, maen nhw'n ymddiried ynoch chi." - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Yn ogystal, roedd swyddogion yr heddlu yn ystyried y gwaith ymgysylltu â'r gymuned a wnaed gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn angenrheidiol i gymryd lle'r

gwaith a fyddai'n cael ei wneud gan swyddogion heddlu yn y gorffennol, ond nad yw’n bosibl mwyach oherwydd llwyth gwaith a diffyg adnoddau:

> "Efallai y byddaf yn cael fy llusgo i ffwrdd i wneud rhywfaint o waith ymateb. Mae fy rôl yn wahanol iawn, ond rwy'n credu heb Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu y byddai'n cwympo'n llwyr oherwydd mai nhw yw'r llygaid a’r clustiau, maen nhw'n gwybod popeth, maen nhw'n ymwybodol o’r problemau. " - Cwnstabl yr Heddlu

> "Byddwn i'n dweud bod cyflawni gwaith Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu da yn debyg i blismona hen ffasiwn, rydych chi'n gwybod pwy yw pwy, ac rydych chi'n gwybod pwy yw ei fam, felly gallwch chi ffonio ei fam os mae’n achosi trafferth. Rwy'n credu unwaith y byddwch chi'n cael y berthynas honno o fewn y gymuned. Gallwch weithio llawer mwy ar yr ochr atal. Nodi problemau cyn iddynt ddod yn broblem i’r heddlu” - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

#### 4.2.2.2. Dad-ddwysáu ac Atal Troseddu

Trwy gydol y grwpiau ffocws roedd trafodaethau am weithgareddau dyddiol yr ymatebwyr fel Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn aml yn arwain at enghreifftiau o sut roedd eu gweithredoedd yn helpu i ddad-ddwysáu sefyllfaoedd ac o bosibl atal troseddu rhag digwydd a lleihau straen ar swyddogion ymateb. Mae'n bwysig nodi y dylid dehongli'r adran hon yn ofalus, oherwydd heb fetrigau addas sydd wedi'u cynllunio i fesur canlyniadau ymgysylltu â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel y trafodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth, byddai'n anodd dweud bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn uniongyrchol gyfrifol am leihau troseddu neu y byddai pob sefyllfa lle mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ymyrryd fel arall yn dod yn fater troseddol. Pan gawsant eu hannog i drafod rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wrth ddelio gyda throseddau casineb, bu ymatebwyr yn trafod hyn i raddau helaeth yng nghyd-destun eu rôl wrth ddarparu addysg a chymorth i gymunedau.

> "Mae gennym Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o bob ardal sy'n cael eu henwebu i fod yn bencampwyr troseddau casineb. Felly, fel rhan o'r rôl honno, mae'n rhaid iddyn nhw gysylltu â dioddefwyr troseddau casineb ar achlysuron penodol. Rwy'n credu ei fod yn 14 diwrnod ar ôl y digwyddiad, efallai 28 diwrnod wedyn. A chynnig cefnogaeth a rhyw fath o wybodaeth am y grwpiau sydd ar gael i'r dioddefwyr hynny os ydyn nhw eisiau'r gefnogaeth. Rwy'n credu bod hynny'n rôl bwysig iawn rydyn ni'n ei chwarae" – Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu

> "Rydyn ni'n cynnal sesiynau addysg mewn clybiau ieuenctid, mewn ysgolion, gyda'r henoed am droseddau casineb" – Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Roedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a swyddogion Cymdogaeth yn teimlo bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn aml yn atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu i’r pwynt lle efallai y byddai angen galw swyddog heddlu. Roedd lefel yr ymyrraeth hon yn amrywio. I rai, roedd hyn yn golygu bod ar gael fel pwynt cyswllt cychwynnol i bobl sydd angen cymorth ar unwaith:

> "Mae'n ymwneud ag atal mewn gwirionedd. Os ydych chi yno, rydych chi'n atal y pethau hyn rhag digwydd cyn iddyn nhw ddigwydd. Efallai y byddem yn gweld os yw'r mathau hynny o achosion yn digwydd, hynny yw, troseddau casineb neu droseddau rhywiol neu beth bynnag, a ni yw'r cyntaf yno" – Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Mewn sefyllfaoedd eraill, bu ymatebwyr yn trafod defnyddio gwybodaeth leol a hwyluso digwyddiadau cymunedol i ddelio'n uniongyrchol gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol a phobl sydd mewn perygl o gymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol, yn enwedig o safbwynt plant a phobl ifanc:

> "Fe wnes i lansio cynllun bocsio [...] lle gallai pobl ifanc ddod bob wythnos am 10 wythnos, cafodd ei ariannu gan asiantaeth bartner [...]. Fe wnaethon nhw ddarparu arian a £100 y noson i hyfforddwr bocsio cymwys ac fe wnaethon nhw fwydo'r bobl ifanc ar ôl y sesiwn, mewn cydweithrediad â thîm NP. Felly, bob wythnos byddai sesiwn 10-15 munud ar droseddau cyllyll er enghraifft, gallai fod yn llinellau cyffuriau, gallai fod yn sgamiau neu ddefnydd diogel o'r we, ond byddai'n darparu eiliadau cyraeddadwy. " - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

#### 4.2.2.3. Cymorth plismona

Fel y nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth a gan ymatebwyr y grŵp ffocws, rhan allweddol o rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yw darparu cymorth i luoedd i ddatblygu perthnasoedd a gwybodaeth gymunedol leol a gweithredu fel cyswllt rhwng y cyhoedd a'r gwasanaeth plismona ehangach. Fodd bynnag, fel y soniwyd o'r blaen yn yr adolygiad llenyddiaeth, mae gallu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i wneud gwaith o'r fath yn gallu cael ei gyfyngu os bydd gormod o'u hamser yn cael ei neilltuo i dasgau mwy adweithiol. I gydnabod hynny, gofynnwyd i ymatebwyr drafod faint o amser sy'n cael ei dreulio ar swyddogaethau adweithiol a chefnogi cydweithwyr sy'n swyddogion heddlu yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Trwy gydol y ddau grŵp ffocws cafwyd trafodaethau am y ddibyniaeth ar Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel yr ymatebwyr cyntaf i ddigwyddiadau sy'n gofyn am bresenoldeb yr heddlu, diogelu ardaloedd, darparu sicrwydd dioddefwyr troseddau ac adnabod tystion posibl wrth aros i swyddogion heddlu gyrraedd y fan a'r lle. Roedd trafodaethau ynghylch y senarios hyn yn gadarnhaol, gan eu bod yn cael eu gweld gan ymatebwyr fel rhan angenrheidiol o'r swydd ac yn rhoi cyfle i helpu aelodau o'r cyhoedd mewn angen. Fodd bynnag, ystyriwyd amlder galwadau ar Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i helpu i gefnogi cydweithwyr yr heddlu mewn swyddogaethau adweithiol fel rhwystr i gyflawni swyddogaethau eraill Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, fel y trafodir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

Roedd gallu cefnogi'r heddlu trwy gasglu cudd-wybodaeth yn cael ei ystyried yn agwedd gymharol gadarnhaol ar y rôl, gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gallu defnyddio eu sgiliau a'u cyfalaf cymdeithasol gyda'r gymuned i gefnogi swyddogaethau sy'n cadw'r cymunedau hynny'n ddiogel. Adleisiwyd y teimlad hwn gan swyddogion heddlu cymdogaeth yn y grwpiau ffocws a oedd yn ystyried cysylltiadau cymunedol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn rhan hanfodol o ymateb ac ymchwiliadau'r heddlu:

"y cyntaf ar y safle, yn aml i ddigwyddiadau anodd eithaf heriol i ddelio â nhw. Darparu sicrwydd a cheisio casglu gwybodaeth gyda gwahanol bobl, pobl dan amheuaeth, tystion, dioddefwyr. Felly, ie, rôl allweddol dda iawn i'r sefydliad plismona." - R, Cwnstabl yr Heddlu.

Roedd ymatebwyr hefyd yn adrodd bod profiadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gyda'r cyhoedd yn wahanol iawn i brofiadau swyddogion yr heddlu, i raddau helaeth o ganlyniad i'r gwaith maen nhw'n ei wneud gyda'r gymuned fel rhan o'u dyletswyddau, sy'n eu gwneud yn ffigwr diogel neu'n wyneb cyfarwydd i siarad gyda nhw, sy'n gallu helpu wrth gasglu gwybodaeth i gefnogi'r heddlu ehangach:

"mae pobl yn fwy tebygol o ymddiried mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn fwy nag y byddant mewn swyddogion heddlu. Mae gen i dipyn o bobl sydd wedi dweud wrtha i'n uniongyrchol "Rwy'n casáu'r heddlu, ond mi wna i siarad gyda chi" ac rwy'n credu bod hynny'n rhan bwysig iawn o fyd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gan fod gennym wahanol bwerau a chyfrifoldebau. Mae pobl yn gallu ein gweld ni'n llai o fygythiad ar adegau os ydynt yn ystyried yr heddlu'n fygythiad. Felly mae pobl yn llawer mwy parod i ymgysylltu â ni ac i siarad â ni." - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu

"pan fydd rhaid i mi fynychu, neu pan rwy'n ymateb i alwadau, rwy'n ceisio mynd allan gyda'm Swyddogion Cymorth Cymunedol. Maen nhw eisoes wedi chwalu'r rhwystr hwnnw i mi. Felly maen nhw'n dechrau ymddiried ynof fi, sy'n wych ac mae'n wirioneddol ddefnyddiol, yn enwedig os oes rhaid i mi ymateb i bethau ar fy mhen fy hun." - Cwnstabl yr Heddlu.

Bu ymatebwyr hefyd yn rhannu enghreifftiau o ddarparu cyswllt uniongyrchol rhwng y cyhoedd ac ymchwiliadau'r heddlu, trwy ddarparu cymorth i ddioddefwyr trwy ymweld â phobl yn eu cartrefi a'u cyfeirio at wasanaethau cymorth, hyd at gysylltu gydag adrannau o fewn heddluoedd i ddarparu diweddariad i ddioddefwyr troseddau ar brosesau ymchwilio lle nad oes gan swyddogion yr heddlu'r adnoddau i allu gwneud hynny. Mae'n ymddangos bod yr elfen hon o waith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael ei hanwybyddu i raddau helaeth mewn llenyddiaeth bresennol ond mae'n debygol ei bod yn rhan hanfodol o feithrin hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn plismona:

"Does ganddyn nhw ddim ffôn. Dydyn nhw ddim yn hyderus gyda'r cyfrifiadur. Mae'n braf ar yr adeg honno. Rydym ni'n gallu treulio amser yn eistedd gyda nhw a chael sgwrs a mynd drwy bethau yn eu hamser eu hunain, yn enwedig y rhai gydag anghenion ychwanegol" - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu

"A gallwn ddiweddaru pobl gyda'r hyn sy'n digwydd os nad ydynt wedi clywed, neu bydd rhai pobl yn mynd yn rhwystredig am nad ydynt yn clywed unrhyw beth yn ôl. Felly, rydym ni'n gallu gweithredu fel cyswllt a dod o hyd i'r swyddogion a fu'n delio gyda nhw, a chael diweddariadau yn y ffordd honno" - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

### 4.2.3. Ffactorau sy'n hwyluso ac un rhwystro gwaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

#### 4.2.3.1. Ymreolaeth

O ystyried natur amrywiol eu gwaith, thema oedd yn dod i'r amlwg o'r grwpiau ffocws oedd budd Swyddogion Cymorth Cymunedol gyda rhywfaint o ymreolaeth o leiaf (o fewn gofynion unigol yr heddlu ehangach) dros eu diwrnod gwaith a'r prosiectau y maent yn ymwneud â nhw. Fel y nodwyd yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, er gwaethaf yr hyblygrwydd hwn, gall Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gael eu galw i ffwrdd o'r gwaith a gynlluniwyd gan fod eu hangen mewn mannau eraill, a bod hynny'n digwydd yn aml.

Bu ymatebwyr yn trafod y rhyddid sydd ganddynt i reoli eu llwyth gwaith eu hunain, a bod hyn wedi'u galluogi i gymryd agwedd mwy deinamig tuag at eu tasgau dyddiol, gan eu galluogi i gyflawni gwaith targed y maent yn teimlo a fyddai o fudd i'r ardal leol:

> "Mae'r rôl yn wirioneddol amrywiol a phan oeddwn i'n hyfforddi, byddai pobl yn dweud mai ni sy'n creu'r rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, gallwch chi fod mor brysur ag yr hoffech chi fod." - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu

> "mae llawer o'r hyn yr ydym ni'n ei wneud yn golygu bod allan a rhoi rhywfaint o sicrwydd i bobl wrth iddynt deithio i'r gwaith neu'r ysgol ac adref" - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Mae'r dull hyblyg hwn o ymdrin â'r rôl hefyd yn caniatáu i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gymryd rhan mewn partneriaethau gyda sefydliadau cymunedol ac elusennol eraill a chyrff cyhoeddus, fel cynghorau lleol. Trwy gydol y grwpiau ffocws soniodd ymatebwyr am enghreifftiau o gyfeirio pobl at y mathau hyn o sefydliadau, nid yn unig fel ffordd o gael cymorth uniongyrchol i unigolion sydd mewn perygl trwy wasanaethau presennol, megis atgyfeiriadau hostel a grybwyllir gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng nghanol y ddinas, ond hefyd er mwyn sefydlu a datblygu cynlluniau ymgysylltu â'r gymuned, fel y cynllun bocsio a soniwyd amdano'n gynharach.

#### 4.2.3.2. Pwerau

Pan anogwyd ymatebwyr i drafod p'un a yw'r pwerau a roddir i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ddigonol i gyflawni eu rôl, roeddent yn rhannu barn gymysg. Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod ganddynt ddigon o bwerau i gyflawni eu dyletswyddau. Roedd nifer llai o ymatebwyr yn teimlo nad oedd pwerau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu presennol yn ddigonol ond roeddent yn ofalus ynghylch cynyddu pwerau gan y gallai fod risg o'u tynnu yn ôl pe bai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gallu cyflawni swyddogaethau sydd wedi'u cadw ar hyn o bryd i swyddogion yr heddlu.

Dywedodd un Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu fod yn well ganddo ystod lai o bwerau gan ei fod yn caniatáu iddo dreulio mwy o amser yn datblygu e arbenigedd a'i brofiad yn ei feysydd gwaith ei hun. Adleisiwyd hyn gan Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu arall a awgrymodd fod cael llai o bwerau na swyddogion heddlu yn golygu bod yn rhaid iddynt ddatblygu eu "hadnoddau" eu hunain er mwyn cyflawni eu dyletswyddau, gan ddibynnu mwy ar sgiliau cyfathrebu na gorfodi i ddatrys materion. Cafwyd achosion hefyd trwy gydol y grwpiau ffocws lle'r oedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn

gwell lle i gasglu cudd-wybodaeth na swyddogion yr heddlu'n benodol gan nad oedd ganddynt yr un pwerau, ac o ganlyniad, roeddent yn gallu datblygu perthynas yn well gyda chymunedau:

> "Mae pobl yn gallu ein gweld ni'n llai o fygythiad ar adegau os ydynt yn ystyried yr heddlu'n fygythiad." - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Fodd bynnag, mynegodd rhai ymatebwyr rwystredigaeth ynghylch y pwerau amrywiol sydd gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, yn enwedig am y gwahaniaethau mewn pwerau rhwng gwahanol heddluoedd, a dywedodd un ymatebwr fod hyn yn gallu achosi dryswch ymysg y cyhoedd ynghylch pwerau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Cododd un ymatebydd hefyd fod newidiadau eang parhaus yn y pwerau sydd ar gael i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn rhwystr arall sy'n eu hatal rhag cyflawni eu rolau yn effeithiol:

> "Mae pŵer wedi cael ei gymryd oddi wrth Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Felly gallu delio â phethau'n fwy deinamig yn y fan a'r lle, er enghraifft hysbysiadau cosb sefydlog ar gyfer gwahanol bethau fel trefn gyhoeddus, baw cŵn, y math yna o beth, pethau maen nhw'n dod ar eu traws ar eu dydd i ddydd. Ond yn anffodus, nid ydynt yn gallu delio â nhw mewn modd yr un mor ddeinamig ag yr oeddent yn y gorffennol [...] Rwy'n gwybod bod mwy o bwerau wedi cael eu rhoi iddynt yn ddiweddar mewn perthynas â gallu cyhoeddi hysbysiadau fel adran 59 a phethau felly. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd rwy'n credu bod mwy wedi cael ei gymryd i ffwrdd nag a roddwyd iddyn nhw" – Cwnstabl yr Heddlu

Rhwystr arall a nodwyd oedd yr anallu i ganiatáu i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gymryd datganiadau gan aelodau o'r cyhoedd, er gwaethaf eu bod yn aml yn gyntaf ar y safle i ddigwyddiadau fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn:

> "Nid yw Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gallu cymryd datganiadau syml ynglŷn â lladradau neu beth bynnag. Rwy'n teimlo eu bod eisiau'r math hwnnw o bŵer a'r cyfrifoldeb hwnnw." - Cwnstabl yr Heddlu.

> "Fodd bynnag, mae ein cyfranogiad wedi'i gyfyngu i raddau o ran y broses ymchwilio. Rwy'n deall nad ydym yn swyddogion heddlu. Ond i ni, dim ond yng Nghymru, nid yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ei gyfanrwydd. Nid ydym yn cymryd datganiadau tystion. Rydyn ni'n gwneud ein datganiadau tystion ein hunain. Nid ydym yn dilyn i fyny ar unrhyw droseddau lefel isel mewn gwirionedd." - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu

> "os ydych chi wedi dioddef trosedd a'n bod ni yno'n cymryd eich datganiad tyst, rwy'n credu bod hynny'n gyfle gwych i feithrin perthynas dda gyda nhw." - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Rhannodd un ymatebydd enghraifft lle mae pwerau cynyddol sydd ar gael i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi helpu i leihau'r galw am swyddogion heddlu a gall fod yn offeryn effeithiol wrth ddelio â materion lleol. Cododd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Ngogledd Cymru ei fod wedi cael pwerau yn ddiweddar i gyhoeddi

penderfyniadau cymunedol a bod hyn yn effeithiol wrth gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol heb orfod cynnwys swyddogion heddlu na'r system lysoedd, a thrwy hynny leihau'r galw am y gwasanaethau hyn.

### 4.2.3.3. Hyfforddiant

Roedd hyfforddiant yn faes arall lle adroddodd ymatebwyr lefel uchel o amrywiad yn dibynnu ar y llu lle'r oeddent wedi'u lleoli. Dywedodd un Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu ei fod wedi derbyn deg wythnos o hyfforddiant sylfaenol ar ddechrau'r yrfa, a dywedodd un arall eu bod wedi derbyn wyth. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo, er bod yr hyfforddiant sylfaenol hwn yn rhoi digon o wybodaeth iddynt am weithdrefnau a'r pwerau sydd ar gael iddynt, nid oedd yn bosibl cael dealltwriaeth ystyrlon o ofynion y rôl nes iddynt gael eu neilltuo i faes a dechrau cyflawni eu dyletswyddau:

> "Rwy'n credu mai un peth a ddaeth i'r amlwg o'm profiad i yw bod hyfforddiant yn wych oherwydd eich bod chi'n cwrdd â llawer o bobl a'ch bod yn cael llawer o fewnbwn gan yr holl adrannau gwahanol hyn. Ond rwy'n teimlo nad ydych chi'n dysgu beth yw'r holl adrannau a beth maen nhw'n ei wneud a sut maen nhw'n ddefnyddiol i chi nes eich bod chi allan ac yn gwneud y gwaith." - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Fodd bynnag, roedd yr ymatebion ynglŷn â hyfforddiant parhaus neu gloywi yn fwy negyddol, roedd ymatebwyr a drafododd y pwnc yn teimlo bod diffyg cyfleoedd ar gael:

> "Os mae dwy flynedd wedi mynd heibio ers i chi wneud y cwrs rydych yn anghofio pethau bach a allai fod yn hanfodol ar gyfer rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr heddlu neu swyddog yr heddlu." – Cwnstabl yr Heddlu

### 4.2.3.4. Dyletswyddau eraill a Adnoddau

Canfu'r adolygiad llenyddiaeth dystiolaeth o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'r gwasanaeth heddlu yn gyffredinol yn profi pwysau ariannol ac adnoddau. Cafodd cwestiwn ei gynnwys yn y canllaw trafod ar gyfer y grwpiau ffocws yn gofyn yn benodol a oedd ymatebwyr wedi sylwi ar unrhyw newidiadau i'w gwaith bob dydd o ganlyniad i bwysau adnoddau. Yn ogystal, roedd themâu sylweddol yn ymwneud ag adnoddau fel rhwystr i waith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu effeithiol, gan gynnwys materion megis dyletswyddau eraill, diffyg offer a lefelau staffio. Gan nodi'r gostyngiadau diweddar yng nghyllid Llywodraeth Cymru a ddarparwyd i heddluoedd Cymru, anogwyd ymatebwyr i wneud sylwadau ar sut mae hyn wedi effeithio arnynt yn eu rôl, fodd bynnag, roedd trafodaethau'n dueddol o ganolbwyntio ar faterion adnoddau ehangach.

Nododd sawl ymatebydd yn y grwpiau ffocws fod dyletswyddau eraill yn dod yn rhwystr allweddol wrth gyflawni eu gwaith o ddydd i ddydd. Nodwyd hyn nid yn unig gan y Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn y grwpiau ond hefyd y swyddogion heddlu cymdogaeth a fu'n cymryd rhan. Bu rhai ymatebwyr yn nodi sut yr oedd natur y dyletswyddau eraill yn gwrthdaro gydag ymrwymiadau a phwerau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Mae'r canfyddiadau yn gynharach yn yr adolygiad hwn yn nodi bod dyletswyddau eraill yn broblem gan fod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gwneud gwaith na fyddai fel arfer yn cael ei wneud o fewn cwmpas y rôl, yn rhannol

oherwydd pwysau ar gydweithwyr sy'n swyddogion heddlu, ac roedd ymatebwyr yn nodi hynny'n broblem hefyd:

> "Unwaith eto, dyletswyddau eraill. Oherwydd diffyg swyddogion heddlu, mae Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n cael ei anfon i ymateb i alwadau na ddylent mewn gwirionedd." - Cwnstabl Heddlu.

> "O ganlyniad i ddiffyg staff ymateb, mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n aml yn cael eu gofyn i ddelio gydag achosion y byddai swyddogion ymateb fel arfer yn delio â nhw." - Cwnstabl Heddlu.

O fewn y grwpiau ffocws, roedd agweddau tuag at dynnu i ddyletswyddau eraill yn negyddol i raddau helaeth, er bod mwyafrif yr ymatebwyr yn nodi nad oes modd osgoi hyn, a'i fod yn rhan hanfodol o'r swydd ar adegau. Rhoddodd rhai ymatebwyr enghreifftiau hefyd o sut mae tynnu i ddyletswyddau nid yn unig yn broblem i staff plismona ond hefyd yn arwain at oblygiadau ehangach ar gyfer gwaith cymunedol. Mae'r ymatebion hyn yn awgrymu mai'r broblem ehangach yw bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n cael eu defnyddio i gyflawni dyletswyddau eraill ar fyr rybudd, gan ei gwneud hi'n anodd i gynllunio a chwblhau gwaith yn eu cymunedau, ac o bosibl, achosi problemau o ran sefydlu partneriaethau gwaith.

Bu rhai ymatebwyr yn trafod y pwysau yr oeddent yn ei deimlo i gydbwyso ymrwymiadau llwyth gwaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu gyda chefnogi gwaith achosion cydweithwyr sy'n swyddogion heddlu o ganlyniad i brinder staff. Bu ymatebwyr yn trafod sut nad ydynt yn gallu bod allan ar batrolau troed neu'n rhyngweithio gyda chymunedau ag o'r blaen gan fod disgwyl iddynt wneud gwaith gweinyddol nad yw swyddogion yr heddlu'n cael amser i'w wneud eu hunain. Yn ogystal â hyn, awgrymodd ymatebwyr fod y gostyngiad graddol mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi golygu bod staff o dan hyd yn oed mwy o bwysau i gwblhau'r gwaith hwn gyda llai o staff.

> "Yn fy ngorsaf roedd pedwar Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu llawn amser yma a nawr dim ond fi sy'n llawn amser, ac mae gen i un Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu arall yma rhan amser gyda mi. Felly yn amlwg yn cynyddu eich llwyth gwaith achos mewn ffordd." - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu

Yn ogystal â phroblemau a achosir gan brinder staffio, trafododd rhai ymatebwyr sut roedd diffyg argaeledd offer o ganlyniadau i faterion cyllido yn achosi iddynt gael trafferth cyflawni eu gwaith yn effeithiol ac yn arwain at oedi wrth helpu aelodau o'r cyhoedd neu hyd yn oed orfod canslo gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned. Disgrifiodd ymatebwyr deimlo'n rhwystredig ar adegau o ganlyniad i gael eu gadael heb yr offer angenrheidiol, gan amrywio o ddiffyg argaeledd cerbydau addas i ddiffyg offer swyddfa. Nododd yr ymatebwyr, yn ogystal ag achosi anawsterau gweithredol, fod y materion hyn wedi cael effaith ar enw da Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'r heddlu ehangach o fewn cymunedau. Yn unol â'r llenyddiaeth, gwelwyd fod mynediad at gerbydau yn arbennig o bwysig wrth ystyried ymgysylltu â'r gymuned mewn ardaloedd mwy gwledig, neu wrth weithio ar draws cymunedau sydd wedi'u gwasgaru yn ddaearyddol:

> "Mae yna rai ardaloedd sy'n hawdd eu cyrraedd ar droed. Mae adegau eraill lle mae angen cerbyd arnom, boed hynny’n drafnidiaeth gyhoeddus, neu’n feic, neu’n gerbyd go iawn. Aethom trwy gyfnod lle dywedwyd wrthym nad oedd Swyddogion Cymorth Cymunedol i fod i ddefnyddio cerbydau, a oedd yn anodd iawn, iawn.” - Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Gallai effaith hirdymor y materion adnoddau hyn achosi anawsterau i waith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn y dyfodol sydd, fel y nodwyd yn gynharach, yn dibynnu ar ymddiriedaeth a chydweithrediad cymunedau er mwyn gweithredu'n effeithiol.

# 5. Casgliadau

Pwrpas yr adolygiad hwn oedd archwilio cyfraniadau, gweithgareddau a defnydd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru drwy adolygiad llenyddiaeth a chyfres o grwpiau ffocws gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a swyddogion heddlu cymdogaeth. O ystyried cyfyngiadau cwmpas yr adolygiad, nid oedd yr awduron yn gallu darparu gwerthusiad nac asesiad o effaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, arferion unigol na chyllid Llywodraeth Cymru. Yn hytrach, nod yr adolygiad hwn yw nodi'r hyn y mae'r llenyddiaeth yn ei ddweud am gyfraniadau posibl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i bobl a chymunedau, beth sy'n helpu neu'n rhwystro'r cyfraniadau hyn ac ystyried sut y gall y dystiolaeth honno drosi i brofiadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu sy'n gweithio yng Nghymru. Datgelodd y chwiliad llenyddiaeth cychwynnol ar gyfer yr adolygiad nad oedd llawer o dystiolaeth ar gael yn archwilio rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o fewn heddluoedd yn y DU, a llai fyth a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar y rôl yng nghyd-destun Cymru. Gan gydnabod y cyfyngiadau hyn, cynhaliwyd yr adolygiad i nodi themâu allweddol gwaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ledled Cymru a Lloegr a lle gallai fod cyfleoedd pellach i ymchwilio ac ehangu ar waith ymchwil presennol.

Roedd canfyddiadau'r llenyddiaeth yn tynnu sylw at wahaniaeth rhwng agwedd Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref tuag at Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, yn enwedig yn dilyn y newid yn llywodraeth y DU yn 2010 ac mewn ymateb i fesurau cyni dilynol a roddwyd ar waith. Yng Nghymru, roedd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi plismona cymdogaeth yn golygu bod cael staff plismona amlwg iawn i ddarparu capasiti a rhyddhad ychwanegol i swyddogion yr heddlu yn faes blaenoriaeth. Yn ôl Lowe et al, (2015) roedd cyllid ychwanegol PCSOs yng Nghymru yn llwyddiannus wrth gyflawni'r nodau hyn.

Roedd canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth yn gallu darparu mwy o gyd-destun o'r rolau a'r gweithgareddau a gyflawnir gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, er ei fod hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod gweithgareddau o ddydd i ddydd yn debygol o fod yn wahanol rhwng Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu unigol (Lowe et al, 2015). Rhoddwyd sawl rheswm dros y gwahaniaethau hyn, o wahaniaethau unigol mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (Sutherland, 2014), blaenoriaethau lluoedd unigol a'r heddlu ehangach (coleg plismona, 2022) ac anghenion cymunedau lleol (O'Neill, 2014). Oherwydd yr amrywiad hwn, mae'n anodd nodi gweithgareddau yr hyn y dylai neu y gallai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu eu gwneud fel rhan o'u swydd, ond cydnabuwyd eu bod yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau a all fod ag ystod eang o nodau. Dangosodd canfyddiadau'r grwpiau ffocws fod yr amrywiad hwn yng ngweithgaredd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i'w weld yn wir ar gyfer y Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu hynny sy'n gweithio yng Nghymru. Lle'r oedd rhai ymatebwyr yn rhannu eu profiadau o drefnu digwyddiadau a rhaglenni cymunedol gyda'r nod o wella canlyniadau ar gyfer pobl leol, roedd rhai'n disgrifio eu gwaith o ddydd i ddydd fel gwaith adweithiol, yn ymateb i alwadau ac yn canolbwyntio ar batrolau troed, yn enwedig mewn ardaloedd poblog fel canol dinasoedd. Bu ymatebwyr yn trafod bod â llawer o wahanol gyfrifoldebau, gan gynnwys patrolau troed, trefnu rhaglenni cymunedol, diogelu a chyfeirio, darparu cymorth i ddioddefwyr troseddau a chynorthwyo cydweithwyr sy'n swyddogion heddlu i gynnal ymchwiliadau.

Canfu'r adolygiad llenyddiaeth bwyslais cyson ar rôl Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel un sy’n canolbwyntio'n bennaf ar welededd ac ymgysylltu â'r gymuned, ond fel y nodwyd uchod, roedd y ffyrdd y cynhaliwyd yr ymgysylltiad hwnnw yn amrywio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle roedd hyfywedd ac effeithiolrwydd patrolau troed yn dibynnu ar faint yr ardal dan sylw (Oldfield, 2021). Nododd y grwpiau ffocws fod y teimlad hwn yn cael ei adleisio ar draws y lluoedd, ond bod yr ymarferoldeb o wneud hynny yn aml yn cael eu hanwybyddu. Rhannodd ymatebwyr sawl enghraifft o brofi rhwystrau wrth geisio gwneud gwaith ymgysylltu yn eu gweithgareddau bob dydd, ac roedd llawer o'r rhain oherwydd diffyg adnoddau. Tynnodd yr ymatebion gan y grwpiau ffocws sylw at effaith pwysau cyllido nid yn unig o ran staffio, fel y cydnabyddir yn yr adolygiad llenyddiaeth, ond hefyd adnoddau mwy ymarferol fel cerbydau ac offer.

Gan nodi'r amrywiaeth eang o weithgareddau y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn eu cyflawni, a'r gwahanol gyd-destunau a sefyllfaoedd y maent yn gweithredu ynddynt, dangosodd yr adolygiad llenyddiaeth a'r grwpiau ffocws y gallai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wneud amrywiaeth eang o gyfraniadau i gymunedau lleoedd a heddluoedd. Canfu ymchwiliadau Sutherland (2014) o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn Swydd Gaergrawnt fod y cyhoedd yn cefnogi’r Swyddogion hyn, ac yn eu gwerthfawrogi a, fod yn gyfeillgar a hygyrch, pwynt a nodwyd yn flaenorol gan y Swyddfa Gartref (Cooper et al., 2006) a Casey (2008), gan nodi’r canfyddiad bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn hygyrch, yn darparu sicrwydd ac yn atal troseddu. Roedd barn gymysg ar ganfyddiad y cyhoedd o bwerau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu .Roedd y ddau adroddiad, ynghyd ag Oldfield (2021) yn dod i’r casgliad y byddai’n well gan bobl gael swyddogion mwy gweladwy gyda mwy o bwerau. Fodd bynnag, roedd Grieg-Midlane (2014) ac O’Neill (2014a) yn dadlau bod pwerau cyfyngedig Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn fuddiol wrth hwyluso perthynas wahanol gyda chymunedau, gan ganiatáu sefydlu mwy o ymddiriedaeth ac yn cynorthwyo Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i adeiladu cyfalaf cymdeithasol. Roedd profiadau'r Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'r Swyddogion Heddlu a fu’n cymryd rhan yn y sesiynau grŵp ffocws yn adleisio'r pwynt olaf, ac yn gwneud sylwadau am fod mewn gwell sefyllfa i gasglu gwybodaeth drwy sgyrsiau neu wrth i aelodau’r cyhoedd ddod atynt am nad ydynt yn swyddogion heddlu, ac felly’n cael eu hystyried yn llai o fygythiad. Byddai'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cyfrannu at sefydlu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn plismona, er bod rhai ymatebion gan y grwpiau ffocws yn dangos rhwystredigaeth ar y graddau y gellid gwneud defnydd o hynny, gyda rhai ymatebwyr yn mynegi rhwystredigaeth am beidio â gallu cynorthwyo gyda thasgau sy'n wynebu'r cyhoedd fel cymryd datganiadau tystion, gan ddadlau y gall tystion a dioddefwyr siarad yn fwy rhydd gyda Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn hytrach na swyddog heddlu.

Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn tynnu sylw at y ffaith bod prinder llenyddiaeth sy’n caniatáu casgliadau cadarn o’r berthynas rhwng Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a lleihau troseddu. Ar ben hynny, o ystyried natur gymhleth troseddu, yr hyn sy’n ei achosi a sut mae’n cael ei adrodd, mae’n anodd archwilio’r berthynas hon, ac fel mae Lowes et al (2015) yn ei ddadlau, mae’n dal i fod yn fesur di-awch wrth ystyried gwerth Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Cafwyd rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod presenoldeb Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar batrolau troed yn arwain at lai o alwadau

brys yn cael eu gwneud (Ariel et al., 2016), nid yn unig o fewn ardaloedd patrôl ond hefyd yn yr ardaloedd cyfagos. Fodd bynnag, roedd cwmpas y gwaith hwn yn gyfyngedig. Dangosodd ymatebion o fewn y grwpiau ffocws fod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn teimlo bod y gwaith maent yn ei gyflawni yn gyfrifol am leihau troseddu yn y cymunedau lle maent yn gwasanaethu, ac yn arbennig o effeithiol o ran atal troseddau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chyffuriau. Fodd bynnag, o ystyried y cymhlethdodau a nodwyd uchod, nid yw'n bosibl pennu faint o sefyllfaoedd lle mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ymyrryd a fyddai fel arall wedi arwain at weithgarwch troseddol, a llai posibl byth i wybod a fyddai'r gweithgaredd hwnnw wedi cael ei adrodd i'r heddlu, gan gyfrannu at ystadegau troseddau lleol.

Un o'r rhesymau a nodwyd dros gyflwyno Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu oedd y potensial i'r rôl gynyddu amrywiaeth a chynrychiolaeth yn yr heddlu. Roedd tystiolaeth i awgrymu bod Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn fwy amrywiol o ran oedran, rhyw ac ethnigrwydd na chymheiriaid plismona, sy'n dangos y gallai cyflwyno Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fod wedi bod yn llwyddiannus yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae llawer o'r dystiolaeth hon yn ymwneud â chyfnodau cynharach yn y broses o gyflwyno Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ac mae tystiolaeth o'r llenyddiaeth yn awgrymu y gallai cyd-destun recriwtio'r heddlu fod yn addasu'r mathau o bobl sy'n ymgeisio i fod yn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Nodwyd bod cynnydd cynyddol wedi bod i hyrwyddo rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel "carreg gamu" i blismona, gan arwain at gronfa iau a llai amrywiol o ymgeiswyr, a bod hyn yn arwain at effeithiau mwy hirdymor ar hirhoedledd ac ethos y rôl (Cooper et al. 2016, Oldfield, 2021). Cyflwynwyd hyn i gyfranogwyr yn ystod y grwpiau ffocws, a sylwodd fod ymgeiswyr iau yn fwy tebygol o ddod yn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu fel llwybr i ddod yn swyddog heddlu, oherwydd diffyg cymwysterau addas i wneud cais yn uniongyrchol, a'u bod yn llai tebygol o werthfawrogi'r agwedd cymorth cymunedol ar y rôl o blaid cefnogi swyddogaethau'r heddlu. Ni wnaeth ymatebwyr sylwadau ar y rôl fel cyfle i ymgeiswyr o gefndiroedd ethnig mwy amrywiol, fodd bynnag, dylid nodi bod hyn hefyd heb gael ei gynnwys fel awgrym yn ystod y sesiynau grŵp ffocws.

Mae'r adolygiad llenyddiaeth hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn plismona cymdogaeth a bod y rôl yn debygol o fod yn cydblethu â chyfraniadau ehangach plismona cymdogaeth tuag at ymgysylltiad cymunedol, ymddiriedaeth, hyder a chanfyddiadau o gyfreithlondeb yr heddlu (Mackenzie, 2009; Colover & Quinton, 2018). Gan nad oedd ymchwilio i rôl plismona cymdogaeth o fewn cwmpas yr adroddiad hwn, nid yw'n bosibl pennu i ba raddau y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cyfrannu at hyn. Fodd bynnag, roedd y gefnogaeth y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ei ddarparu i swyddogaethau'r heddlu ac i gydweithwyr swyddogion heddlu yn thema ailadroddus o fewn yr adolygiad llenyddiaeth a chanfyddiadau'r grŵp ffocws. Awgrymodd adolygiad Llywodraeth Cymru (2015) fod cyfnodau o gyni a gostyngiadau dilynol mewn staffio wedi golygu y gallai Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu mewn rhai achosion fod yn gwneud mwy o weithgareddau cymorth i'r heddlu na gweithgareddau cymorth cymunedol, ac roedd hyn hefyd yn cael ei gefnogi gan Higgins (2015). Roedd canfyddiadau'r grŵp ffocws yn cefnogi hyn, gydag ymatebwyr yn nodi eu bod yn aml yn cynorthwyo gyda swyddogaethau'r heddlu fel rhan o'u

rôl, yn enwedig lle nad oedd gan gydweithwyr sy’n swyddogion heddlu amser i gyflawni'r rhain eu hunain.

Roedd dyletswyddau eraill yn thema allweddol a nodwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth ac a nodwyd fel un o'r rhwystrau mwyaf i Swyddogion Cymorth Cymunedol rhag cyflawni gwaith ymgysylltu â'r gymuned effeithiol (O'Neill, 2014b). Dehonglwyd symud Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o'u cymdogaethau arferol er mwyn darparu cymorth mewn ardaloedd eraill neu i gynorthwyo gyda gwaith gweinyddol gan O'Neill yn niweidiol i waith ymgysylltu â'r gymuned a’i fod yn tanseilio'r perthnasoedd y gweithiodd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i'w datblygu o fewn cymunedau. Gan nad oedd yr adolygiad hwn wedi'i fwriadu i werthuso arferion cyfredol, nid yw'n bosibl penderfynu a yw dyletswyddau eraill yn cael effaith sylweddol ar ymgysylltu â'r gymuned. Fodd bynnag, yn ystod y grwpiau ffocws rhoddodd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu enghreifftiau lle roedd dyletswyddau eraill yn ymyrryd â gwaith ymgysylltu cymunedol wedi'i gynllunio, a’u bod yn teimlo bod hyn yn gwneud eu rôl yn anoddach pe byddent yn cael eu galw i ffwrdd o weithgareddau wedi'u cynllunio ar fyr rybudd.

Byddai canfyddiadau cyffredinol yr adolygiad hwn yn awgrymu bod angen gwneud mwy o ymchwil er mwyn archwilio a disgrifio rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng nghyd-destun plismona Cymru, a’u heffaith ar gymunedau Cymru. Fel y nodwyd, mae llawer o'r llenyddiaeth ynghylch Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ymwneud â Lloegr a dylid bod yn ofalus wrth wneud cyffredinoliadau o'r dystiolaeth hon am Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru, o ystyried y gwahaniaethau yn y ffordd y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi parhau i gael eu hariannu. Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth bresennol wedi bod yn ddefnyddiol wrth ddarparu fframwaith cyffredinol sy'n ymwneud â rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a'r mathau o weithgareddau y maent yn eu cyflawni yn ystod eu dyddiau gwaith, ac i nodi meysydd lle gellir archwilio eu cyfraniadau i gymunedau a phlismona ehangach. Roedd y canfyddiadau a gyflwynwyd o'r grwpiau ffocws yn rhoi cyd-destun i'r adolygiad drwy brofiadau timau plismona cymdogaeth o fewn heddluoedd Cymru ac yn helpu i ddangos rolau a chyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i blismona a chymunedau yng Nghymru.

## 6. Adran gyfeirio


ACPO (2007) Guidance on Police Community Support Officers

Ariel, B., Weinborn, C. a Sherman, L. (2016) "Soft" policing at hot spots - do police community support officers work? A randomized controlled trial

Bradbury-Jones, C. et al. (2021) Vulnerability and Violent Crime Programme: Evaluation of the Think Family Early Intervention programme

Casey, L. (2008) Engaging Communities in Fighting Crime

Coleg Plismona (2024) - Effects of police community support officer hot spot foot patrol on crime and incidents in a small city centre setting

Coleg Plismona (2022) PCSO Handbook

Colover, S. a Quinton, P. (2018) Neighbourhood policing: Impact and implementation. Summary findings from a rapid evidence assessment

Cooper, C., Anscombe, J., Avenell, J., McLean, F. a Morris, J. (2006) Home Office Research Study 297: A national Evaluation of Community Support Officers

Cunningham, S. a Wagstaff, M. (2006) Diversity of Police Community Support Officer recruits compared to Police Officer recruits in the Metropolitan Police Service

Grieg-Midlane, J. (2014) Changing the Beat? The Impact of Austerity on the Neighbourhood Policing Workforce

Hales, G. (2020) A Diversity uplift? Police workforce gender and ethnicity trends from 2007 to 2018 and prospects for the future

Henry, A. a Mackenzie, S. (2009) Community Policing: a Review of the Evidence

Tŷ'r Cyffredin (2008) Adroddiad y Pwyllgor Materion Cartref: Plismona yn yr 21ain Ganrif

Higgins, A. (2018) The future of neighbourhood policing

Higgins, A. and Hales, G. (2017) A natural experiment in neighbourhood policing

HMIC (2016) PEEL: Effeithiolrwydd yr Heddlu 2016 – Trosolwg Cenedlaethol

HMIC (2017a) PEEL: effeithiolrwydd yr heddlu 2016 – Heddlu Dyfed-Powys

HMIC (2017b) PEEL: effeithiolrwydd yr heddlu 2016 – Heddlu Gwent

HMIC (2017c) PEEL: effeithiolrwydd yr heddlu 2016 – Heddlu Gogledd Cymru

HMIC (2017d) PEEL: effeithiolrwydd yr heddlu 2016 – Heddlu De Cymru

Y Swyddfa Gartref (2025), Police workforce, England and Wales: 30 Medi 2024

Lister, S., Adams, B. a Phillips, S., (2015) Evaluation of police-community engagement practices

Longstaff et al. (2015) Neighbourhood policing: past, present and future

Lowe, T., Innes, H., Innes, M. and Grinnell, D. (2015) Gwaith swyddogion cymorth cymunedol a ariennir gan Lywodraeth Cymru

Johnson, L. (2005) From ‘Community’ to ‘Neighbourhood’ Policing: Police Community Support Officers and the ‘Police Extended Family’ in London

Jones, R., Harrison, M. and Jones, T. (2023) Policing and devolution in the UK: The ‘special’ case of Wales

Oldfield, N. (2021) The Current and Future Role of the Police Community Support Officer in Staffordshire

O’Neill, M (2014a) Ripe for the Chop or the Public Face of Policing? PCSOs and Neighbourhood Policing in Austerity

O'Neill, M., (2014b) PCSOs as the paraprofessionals of policing: findings and recommendations from a research project

O’Neill, M, de Maillard, J., and van Stedan, R. (2022), The enforcement turn in plural policing?: A comparative analysis of public police auxiliaries in England & Wales, France and The Netherlands

Strickland and Beard (2012) Research Briefing: Police Community Support Officers

Sutherland, J. (2014), The PCSO Review- An Evaluation of the Role, Value and Establishment of Police Community Support Officers within Cambridgeshire Constabulary

Tuffin, R., Morris, J. and Poole, A. (2006) An evaluation of the impact of the National Reassurance Policing Programme

UK Government (2001) Policing A New Century - a blueprint for reform

UNISON (2016) No time for Community Policing Anymore

Wegorowski, P. (2018) Between Police and Community: A linguistic ethnographic exploration of heteroglossia in the discourse of Police Community Support Officers (PCSOs)

Llywodraeth Cymru (2011) Rhaglen Lywodraeth 2011-2016

Weston, L. (2021) Making the ‘Visible’ Visible: An interactional understanding of Police Visibility in Community Engagement

# 7. Atodiad A - Canllaw Trafod Grwpiau Ffocws

Cyfranogwyr

*[Hwylusydd i nodi enwau'r mynychwyr]*

Cyflwyniad

Bore da / prynhawn da a diolch i chi am roi eich amser i gymryd rhan yn y grŵp ffocws hwn. Sut ydych chi heddiw?

Fy enw i yw [ymchwilydd] ac rwy'n ymchwilydd yn yr Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn Llywodraeth Cymru, ac yn ymuno â mi ar yr alwad hon mae fy nghydweithiwr [ymchwilydd]. Yn dilyn argymhellion gan Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd, gofynnwyd i ni gan yr Is-adran Diogelwch Cymunedol o fewn Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad ysgafn o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru. Nid yw'n fwriad gennym i feirniadu unrhyw arferion unigol, ond yn hytrach, ein nod yw datblygu dealltwriaeth ehangach o'r mathau o waith y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ei wneud a'r gwahaniaeth mae hyn yn ei wneud i bobl a chymunedau Cymru. Disgwylir y bydd darn manylach o waith yn cael ei wneud yn 2025 a 2026

Fel rhan o'r gwaith hwn, fe wnaethom ni gynnal adolygiad o'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr. Canfu'r adolygiad hwn o'r llenyddiaeth ychydig o themâu allweddol yr hoffem eu harchwilio gyda chi heddiw i gael gwell dealltwriaeth o'u perthnasedd i waith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru. Roedd agweddau pwysig a gododd yn ystod yr adolygiad llenyddiaeth yn cynnwys cymhellion sydd wedi arwain pobl i fod yn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, gwaith y Swyddogion hyn o ddydd i ddydd, a'r cydbwysedd rhwng 'cymorth cymunedol' a 'swyddogaethau cymorth i'r heddlu', cyfraniadau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a phlismona lleol, a ffactorau sy'n rhwystro ac yn galluogi gweithgarwch y Swyddogion hyn.

Bydd y themâu hyn yn cael eu defnyddio i lywio ein trafodaethau heddiw. Bydd y grŵp ffocws hwn yn para tua 60 munud, ond rydym wedi caniatáu hyd at 90 munud i gael trafodaeth hirach os oes angen. Dylai bod gennym gymysgedd o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a swyddogion Plismona'r Gymdogaeth, felly pan fyddwn yn gofyn am weithgarwch Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, mae croeso i chi siarad o'ch profiad eich hun, ond hefyd eich canfyddiadau o waith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ehangach.

Sylwch na ddylid ystyried unrhyw beth y byddwch yn ei glywed yn ystod y grŵp ffocws hwn fel arwydd o bolisi neu benderfyniadau Llywodraeth Cymru neu blismona yn y dyfodol sy'n ymwneud â Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu - bwriad ein gwaith yw casglu tystiolaeth yn unig. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod penderfyniadau gweithredol ynghylch sut mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael eu defnyddio yn gyfrifoldeb i'r heddlu. Nid yw'n fwriad i'r cwestiynau sydd wedi'u cynnwys yma ddynodi unrhyw farn o werth am sut y dylid defnyddio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu,

maen nhw wedi cael eu dewis er mwyn helpu i ddeall i ba raddau mae'r themâu a gododd yn y llenyddiaeth yn berthnasol yng nghyd-destun Cymru.

Hoffwn eich atgoffa'n garedig i beidio â rhannu y tu allan i'r grŵp ffocws hwn unrhyw farn neu safbwynt a fynegwyd gan gyfranogwyr eraill mewn ffordd a allai eu hadnabod. Mae eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol ac os oes cwestiwn nad ydych am ei ateb, nid oes rhaid i chi wneud hynny. Bydd unrhyw fewnwelediadau neu ddyfyniadau a ddefnyddir o fewn allbynnau ymchwil yn cael eu defnyddio'n gwbl ddienw.

Oes gan unrhyw un unrhyw gwestiynau am y grŵp ffocws hwn neu'r ymchwil yn gyffredinol cyn i ni ddechrau?

Fe wnaethom hefyd rannu Hysbysiad Preifatrwydd a Ffurflen Cyfranogiad gyda chi cyn y grŵp ffocws. Fel y nodir yn y ffurflen, byddwn yn trawsgrifio a chofnodi'r cyfarfod hwn at ddibenion cymryd nodiadau, felly byddaf nawr yn dechrau recordio.

**- DECHRAU TRWSGRIFIO -**

Cynhesu

I ddechrau, a allai pawb ddweud ei enw, enw'r llu maen nhw'n ei gynrychioli a'u swydd? [*Hwylusydd i ddewis trefn yr ymatebwyr*]

Cwestiynau

**Cymhellion**

Beth ydych chi'n meddwl sy'n ysgogi pobl i ddod yn Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu?

**Rôl a chyfraniad Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu**

Sut fyddech chi'n disgrifio'r rolau a'r gweithgareddau y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn eu cyflawni fel rhan o'u gwaith bob dydd?

Sut fyddech chi'n disgrifio effaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ar y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu?

**Ffactorau sy'n rhwystro ac yn galluogi gwaith Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu**

Pa elfennau o'r arfer presennol yr ydych chi'n teimlo sy'n galluogi Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu i weithio yn y ffordd fwyaf effeithiol?

Beth yw'r rhwystrau y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn eu hwynebu ar hyn o bryd?

Beth yn eich barn chi yw goblygiadau gostyngiadau mewn cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yng Nghymru, os o gwbl?

**Dadfriffio**

A oes unrhyw bynciau perthnasol eraill yr hoffech eu trafod cyn i ni orffen y grŵp ffocws?

Camau nesaf y prosiect: Creu adroddiad cryno sy'n amlinellu canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth a throsolwg o'r trafodaethau yn y gweithdai hyn. Bydd yr adroddiad yn cael ei gwblhau ym mis Chwefror/Mawrth a'i gyhoeddi yn fuan wedyn ar llyw.cymru. Disgwylir y bydd rhagor o waith ymchwil yn cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.